# Y DINESYDD

Mawrth 2022 Papur Pobl Caerdydd a'r Fro Rhif 466 £1.20



**Atgofion am hen adeilad y B.B.C. yn Llandaf**
tud. 9




**Crwydro Gogledd Caerdydd**
tud. 24



**Bwytai Merch y Ddinas**
tud. 6




**Gwersi mathemateg o'r parc yn Sydney**
tud. 19

# Y DINESYDD

**Golygydd:**
**Hywel Jones**

***Golygydd Ebrill:***
***Hefin Mathias***

Cyfraniadau erbyn 27 Mawrth at:
hefinmathias@hotmail.co.uk
13 Heol Don, Yr Eglwys Newydd,
Caerdydd, CF14 2AR
029 2031 1340

Y Digwyddiadur:
Yr Athro E Wyn James
JamesEW@caerdydd.ac.uk
16 Kelston Road, Caerdydd, CF14 2AJ
029 20628754

Hysbysebion:
Iestyn Davies
iestynd@gmail.com
15 Birchfield Crescent, Parc Victoria,
Caerdydd, CF5 1AE
07876 068498

Tanysgrifiadau at:
Ceri Morgan
ceri33@btopenworld.com
24 Cwm Gwynlais, Tongwynlais,
Caerdydd, CF15 7HU
029 20813812 / 07774 816209

Prif Ddosbarthwr:
Arthur Evans
Yr Eglwys Newydd.
aloevans@icloud.com
029 20623628

**www.dinesydd.cymru**
Cyhoeddir gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi
ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyr:
Serol Print, Castell-nedd
Cysodydd: Dr Eirian Dafydd

CYMRAEG

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Y Cyfryngau Cymdeithasol

Twitter: @DinesyddCdydd
Facebook:
www.facebook.com/YDinesydd


## Gair gan olygydd y mis

Gair o ddiolch sydd gen i am y gwahoddiad i 'ddod nôl' a golygu'r Dinesydd am y tro cyntaf ers Rhagfyr / Ionawr 2011-12. Af i ddim i dyrchu yn y rhifyn hwnnw nawr. Fe gewch chi gyrchu gwefan *Y Dinesydd* (http://dinesydd.cymru) a hel atgofion am y cyfnod hwnnw eich hunain. Y cyfan ddweda i yw bod llawer o ddŵr wedi mynd dan y bont yn ystod y degawd diwethaf a'r cyfan y gallwn ni ddweud i sicrwydd yw ein bod ni i gyd ddeng mlynedd yn hŷn!

Caniatewch i fi fodd bynnag gynnig un sylw oherwydd mae 'na un gwahaniaeth trawiadol wrth i chi droi tudalennau y rhifyn hwnnw ddeng mlynedd yn ôl o'i gymharu â'r rhifyn cyfredol. Ni ddaeth unrhyw newyddion o gyfeiriad yr ysgolion y tro hwn. Cymharwch hynny â thoreth o erthyglau yn rhifyn 363! Nawr, fi yw'r olaf i ddymuno ychwanegu at lwyth gwaith staff ysgolion Cymraeg Caerdydd a'r Cylch ac rwy'n llwyr ymwybodol o heriau'r ddwy flynedd ddiwethaf. Ond, wrth fodio'r gwahanol gyfryngau cymdeithasol mae'r dystiolaeth ddyddiol yn drwch o weithgarwch a llwyddiannau ein hysgolion ar draws lliaws o feysydd amrywiol.

Her fach felly i'r ysgolion. Wedi bwydo *twitter* a'r llwyfannau eraill a wnewch chi gofnodi eich llwyddiannau yn fisol a dod â llais yr ieuenctid yn ôl i dudalennau (a gwefan) papur bro'r brifddinas? Fel y gwnes innau, dewch nôl at y *Dinesydd*, ond peidiwch ag aros draw gyhyd!

***Hywel Jones***

---

**Cadwch mewn cysylltiad â'r Dinesydd ar Twitter trwy ddilyn ein cyfrif newydd**

**@DinesyddCdydd ac ar Facebook trwy ddilyn www.facebook.com/YDinesydd**

---

## Siopau lle gwerthir *Y Dinesydd*

**CABAN**, Pontcanna
**CAFFI BLOC**, Parc Fictoria
**CAFFI FFLOC**, Heol Ddwyreiniol y Bontfaen
**CANT A MIL**, 100 Whitchurch Rd.
**DERI STORES**, Rhiwbeina
**GRIFFIN BOOKS**, Penarth
**PAPERWEIGHT**, 22 Wellfield Road
**SIOP FACH CAERDYDD**, Arcêd y Castell
**Y FELIN**, Yr Eglwys Newydd
**VICTORIA FEARN GALLERY,** Rhiwbeina

# Colofn G.R.



*"mae arwyddion Gwanwyn yn y tir"*

Codwch eich calonnau bawb achos mae'r dydd yn prysur ymestyn ac mae arwyddion bod y gwanwyn yn y tir ac ar ben hynny ymddengys bod y firws ar drai bellach a bod gobaith am ddyddiau gwell i ni gyd ar ôl y misoedd lawer o fod yng nghysgod yr haint.

Tybed faint ohonoch chi wyliodd gystadleuaeth dennis agored Awstralia ym Melbourne a'r ffeinal rhwng y Sbaenwr Rafael Nadal a'r Rwsiad Daniil Medvedev? Nadal enillodd yr ornest ar ôl pum set ac yntau wedi colli'r ddwy set gyntaf. Ond, mi lwyddodd i godi ei gêm a mynd ymlaen i ennill ar ôl bod ar y cwrt am dros bum awr! Tipyn o gamp a bu'n werth ei gwylio.



Llun: The guardian.com

Tra'n sôn am Melbourne, sydd â phoblogaeth sy'n fwy na Chymru, hoffwn i sôn am fy nghysylltiad â'r ddinas. Mae gen i gyfyrder o'r enw Medi Wyn Jones-Roberts yn byw yno ers i'r teulu ymfudo i Awstralia pan oedd Medi Wyn yn 16 oed a'i frawd Gareth yn 14 oed. Bu farw Gareth ychydig flynyddoedd yn ôl ond mae Medi Wyn yn dal yn fyw ac yn 88 oed bellach a'i Gymraeg yn dal yn loyw. Mae ei deulu ar ochr ei fam yn perthyn i'r beirdd Gerallt a Geraint Lloyd Owen.

Mae Medi Wyn yn aelod yn y capel Cymraeg ym Melbourne a bydd yn fy ffonio o dro i dro am sgwrs. Roedd Gareth, ei ddiweddar frawd, yn arlunydd medrus ac yn ôl y sôn mae nifer o'i luniau i'w gweld mewn orielau celf yn y wlad.

Mae mudiad yr Urdd yn gant oed eleni ac yn ogystal â sefydlu'r Urdd bu Syr Ifan ab Owen Edwards yn gyfrifol am roi cychwyn i'r ymgyrch i sefydlu ysgolion Cymraeg ledled y wlad. Ar ddechrau'r Ail Ryfel Byd daeth nifer o blant cadw (ifaciwîs) i Aberystwyth gan lastwreiddio Cymreictod yr ysgolion lleol ac o ganlyniad penderfynodd Syr Ifan sefydlu ysgol Gymraeg yng Nghanolfan yr Urdd yn y dre. Bu'n destun gwawd gan rai mae'n debyg gan mai saith disgybl yn unig oedd yn yr ysgol ar y dechrau pan y'i hagorwyd ar 25 Medi 1939.

Ond gŵr craff oedd Syr Ifan a phenododd athrawes ysbrydoledig i ddysgu'r saith disgybl, sef Norah Isaac a ddaeth wedi hynny yn amlwg ym myd addysg a'r ddrama. Mi flodeuodd yr ysgol dan ei harweiniad gyda mwy a mwy o blant yn ymuno â'r ysgol. Ysgol breifat oedd hi am flynyddoedd nes i Gyngor Sir Ceredigion gytuno i agor ysgol Gymraeg swyddogol yn y dre a hynny ar yr ail o Fedi 1952. Ond roedd yr ysgol Gymraeg swyddogol gyntaf yng Nghymru, sef Ysgol Gymraeg Dewi Sant yn Llanelli wedi agor eisoes yn 1947. Mae'r ysgol hon felly yn dathlu ei phenblwydd yn 75 oed eleni. Diddorol nodi bod Ysgol Gymraeg Bryntaf Caerdydd wedi agor yn 1949.

Bu'r datblygiadau hyn yn sbardun i fwy a mwy o ardaloedd fynd ati i ofyn am addysg Gymraeg a bu Ifan ab Owen Edwards a Norah Isaac yn teithio'r wlad yn annog rhieni i bwyso ar eu hawdurdodau addysg i ymateb i'w cais. Erbyn heddiw mae ugeiniau o ysgolion Cymraeg yn britho'r wlad ac mae mwy ar y ffordd diolch i ymdrechion sylfaenydd yr Urdd nôl yn 1939. Yr ardal ddiweddaraf i ofyn am Ysgol Gymraeg ydy ardal Bwcle yn Sir y Fflint a dymunaf bob llwyddiant i'w hymdrechion yno.

Y mis hwn rhaid sôn hefyd am hanes sefydlu Cymdeithas yr Iaith Gymraeg. Yr ysgogiad oedd darlith radio Saunders Lewis "Tynged yr Iaith" a draddodwyd gan y BBC ar 13 Chwefror 1962 - her i bobl Cymru i greu chwyldro i achub yr iaith. Ymatebodd nifer o bobl ifanc i her Saunders ac aethpwyd ati yn egnïol a phwrpasol i ymgyrchu mewn sawl maes i ennill statws i'r hiaith. Roedd eu dulliau o ymgyrchu yn ddidrais ond, serch hynny, carcharwyd nifer sylweddol o bobl ifanc dros y blynyddoedd. Diolch i'r Gymdeithas, llwyddwyd i ennill sawl brwydr dros yr iaith ac mae'r gwaith yn parhau i sicrhau na fydd yr iaith yn dioddef cam.


Yn ddiweddar cyhoeddodd Llywodraeth Cymru eu bwriad i gynnig gwersi Cymraeg rhad ac am ddim i unrhyw un rhwng 16-25 oed a hynny drwy ymrestru ar gyrsiau wedi eu paratoi gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Bydd y cyrsiau hyn yn dechrau ym mis Medi ac yn ogystal â thargedu pobl ifanc, bydd cyfle i brifathrawon a'u dirprwyon a chynorthwywyr dosbarth fanteisio ar y cynllun hefyd. Felly, ymddengys bod y Llywodraeth o ddifrif ynglŷn â'i nod o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Gobeithio bydd ymateb ffafriol i'r trefniant hwn.

Gobeithio hefyd y byddwch i gyd yn cofio bod angen troi y clociau ymlaen awr ar ddiwedd y mis! Yn y cyfamser cadwch yn saff a byddwch lawen achos mae dyddiau gwell o'n blaenau.

# Merched y Wawr Bro Radur

Nos Fercher 2 Chwefror cawsom gwmni Efa Lois, yr arlunydd a dylunydd medrus. Daw Efa yn wreiddiol o Aberystwyth lle cafodd ei haddysg yn Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig.

Dilynodd gwrs mewn pensaernïaeth yn Lerpwl am bum mlynedd, ac enillodd Ysgoloriaeth Pensaernïaeth yr Eisteddfod Genedlaethol yn 2016; Ysgoloriaeth Celf yr Urdd yn 2018; ac Ysgoloriaeth Geraint George yr Urdd yn 2019.



Adeg Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd yn y Bae, 2018, creodd Efa Lois ddarluniau o ardaloedd yng Nghaerdydd gan gynnwys, yn y darluniau, eiriau gan Morgan Owen. Cawsom hanes cefndir creu'r lluniau hynny. Esboniodd Efa eu bod yn darlunio mannau adnabyddus yng Nghaerdydd: e.e. Stryd Womanby, Pontcanna, Y Sblot, Treganna, Y Rhath a'r Mynydd Bychan.

Soniodd Efa am ei blog a'i gwaith diweddar ynglŷn â merched enwog megis Non a Gwenllïan yn ogystal â merched anghofiedig yn ein hanes. Teitl y prosiect ydy Drudwen, a hyd yma rhoddwyd sylw i 80 o fenywod. Cawsom wahoddiad i gynnig enwau menywod yn ein hanes, ac anogaeth i anfon gwybodaeth amdanynt at Efa.



Clywsom fod pwyslais amgylcheddol bwriadus yn ei gwaith drwy ei defnydd o siopau sy'n gwerthu pethau ail-law. Dywedodd ei bod yn hoff o ddefnyddio patrymau o'r 1970au, a dangosodd enghreifftiau o hyn yn ei chyfraniadau i Ŵyl Tafwyl ar ffurf posteri sy'n cynnwys lluniau lliwgar gyda neges. Mae'r gweithiau mwyaf mentrus yn ailddychmygu cymeriadau o lyfrau plant megis Rala Rwdins. Hefyd Efa fu'n llunio baneri Tafwyl er 2020. Ers iddi raddio, mae bywyd Efa wedi bod yn un prysur a chynhyrchiol.

Diolchodd sawl un iddi am gyflwyniad deheuig, a dymunwyd yn dda iddi yn ei gwaith newydd gyda Chomisiwn Dylunio Cymru yng Nghaerdydd.

*Gwen Emyr*

# Merched y Wawr Caerdydd

Gallasai Andrew Green, ein siaradwr gwadd fis Chwefror, fod wedi sgwrsio am sawl pwnc ac yntau, ers ymddeol fel prif weithredwr y Llyfrgell Genedlaethol, bellach yn awdur nofel, llawlyfr ar gadeirio effeithiol, a blogiau am gerdded ledled Cymru a thu hwnt.

Ond ei wahodd i roi sgwrs am ei gyfrol *Cymru mewn 100 Gwrthrych* a gyhoeddwyd ym 2018 wnaethom ni. Mae hon yn gyfrol fendigedig sydd ar gael yn y Gymraeg ac yn Saesneg gyda lluniau gwych gan Rolant Dafis. Soniodd Andrew yn ddifyr am gefndir y gyfrol, sut yr aeth ati i ddethol y 100 gwrthrych, gan geisio sicrhau cynrychiolaeth ar hyd a lled Cymru. Clywsom am y pleser a gafodd yn ymweld â'r gwrthrychau cyn eu cynnwys. Roedd wedi dethol rhai enghreifftiau ar ein cyfer, yn amrywio o'r panel cyfrifiadurol Raspberry Pi o ffatri Sony ym Mhencoed, i furlun hynafol ar wal Eglwys Cadog Sant, Llancarfan. Aeth ymlaen i'n cyflwyno i hanes Cymdeithas Cymorth Meddygol Tredegar, mwg Evan Roberts y diwygiwr, doliau dychanol yn gwawdio mudiad pleidlais i fenywod, a'r car tegan Corgi cyntaf erioed o ffatri yn Fforest-fach, ffatri a oedd yn cyflogi merched yn bennaf. Wrth gyflwyno pob gwrthrych roedd yn codi cwr y llen ar elfennau difyr dros ben o hanes Cymru gan greu ynom ninnau yr awydd i ail ddarllen ac i lunio teithiau bach i ymweld ag ambell wrthrych.






Cawsom gyfle hefyd i glywed gan Siân Lewis, Prif Weithredwr yr Urdd, am eu cronfa Cyfle i Bawb a dderbyniodd gyfraniad ariannol gan ein cangen. Sobrwyd ni wrth gael ein hatgoffa fod chwarter plant Cymru yn byw mewn tlodi ac fel mae'r cynllun wedi rhoi profiad o wyliau a chefnogaeth i blant na fyddai byth fel arall yn cael profiadau o'r fath.


# Colofn Natur



## *Caerdydd yng Nghyfnod yr Oligocene*


**Gethin Jenkins-Jones**

Ar ein siwrne ddiwethaf yn y peiriant amser, fe aethon ni i fforestydd glaw twym Caerdydd 47 miliwn o  flynyddoedd yn ôl. Dyma sut le oedd ein dinas am amser maith, ac ni ddaeth newidiadau sylweddol tan tua 13 miliwn o flynyddoedd yn ddiweddarach. Beth sbardunodd hyn? Ar ben arall y byd, ynyswyd Antartica fwyfwy o Dde America ac Awstralia, a dechreuodd cerrynt morol gylchdroi o amgylch y cyfandir gan atal dŵr oer y pegwn rhag cymysgu â moroedd twymach y cyhydedd. O ganlyniad, clöwyd rhywfaint o ddŵr ffres y byd wrth i rewlifoedd ffurfio, daeth y byd yn sychach ac yn oerach, a newidiodd nifer o'r fforestydd glaw i fod yn goedwigoedd mwy agored. Yn ogystal, syrthiodd lefelau'r môr ychydig gan uno Ewrop ac Asia yn barhaol, a mudodd nifer fawr o anifeiliaid rhwng y ddau gyfandir. Oherwydd yr holl newidiadau hyn, gwelwyd anifeiliaid gwahanol iawn erbyn cyfnod nesaf ein taith - yr Oligocene.



***Aderyn y Cwils***

Heddiw, fe awn ni nôl 28 miliwn o flynyddoedd. Mae'n ganol dydd, ac yn dilyn glaw a lleithder yr Eocene mae'n hyfryd teimlo cynhesrwydd yr haul eto ar ein hwynebau. Mae'r coed o'n hamgylch yn llai o faint ac yn gymharol wasgaredig, ac mae modd gweld rhyngddynt hyd at y bryniau yn y pellter. Unwaith eto mae'r byd yn edrych ychydig yn fwy cyfarwydd i ni. Am y tro cyntaf, ar ben coeden gyfagos, mae nodau swynol aderyn yn canu, er yn wahanol i unrhyw aderyn sydd i'w glywed yng Nghaerdydd heddiw. Mae'n debygol y daeth ein holl adar cân ni yn wreiddiol o Awstralia, cyn iddynt ymledu'n gyflym ar draws Asia yn ystod yr Oligocene. Nid oes llawer o rywogaethau arall i'w clywed heddiw fodd bynnag ond, gerllaw, mae hynafiad Aderyn y Cwils a'i goesau hir (*Secretary Bird)* yn cerdded rhwng y llystyfiant, fel y gwna yn Affrica heddiw. Wrth edrych ar bopeth o'n hamgylch mae'n anodd credu taw fforest law oedd yma ond ychydig filiynau o flynyddoedd yn ôl. Ni welwyd y fath golli bywyd ers diwedd oes y deinosoriaid. Mae'r primatiaid - a oedd yn byw ar hyd cyfandiroedd y gogledd yn ystod yr Eocene - bellach â lloches addas yn Affrica yn unig, ac nid oes adar anferth fel Gastornis - a welwyd ar ein siwrne ddiwethaf - yn cerdded rhwng coed Ewrop bellach.



***Eneteledont***

Cerddwn am filltir tan ein bod yn dod at lyn lle mae sawl math o anifeiliaid rhyfedd wedi ymgasglu. Yn eu canol mae grŵp o anifeiliaid tebyg i hippopotamws o'r enw Anthrocotheres yn ymlacio, a rhai yn gorwedd a'u pennau'n unig uwchben wyneb y dŵr. Er eu bod yn edrych yn debyg i fwystfilod afonydd a llynnoedd Affrica heddiw, eu perthnasau agosaf yw'r morfilod. Mae anifail blewog llawer llai o faint yn nofio yn agos atynt, ond yn plymio'n ddwfn wrth ein gweld. Er taw cipolwg yn unig a gawsom, dwi'n amau taw un o afancod cyntaf Ewrop oedd yr anifail hwn, a fudodd yma o Asia. Ac er eu bod yn dal i fod gyda ni heddiw, dy'n nhw ddim tamaid yn haws i'w gweld! Yn ffodus i ni fodd bynnag mae anifail arall yn nesáu at y llyn yn edrych am ddiod, ac rydym yn petruso rhywfaint wrth ei weld. Mae ganddo gorff siâp ceffyl ond â phen fel rhinoseros heb gorn. Rydym yn gywir i ddweud mai Rhinoseros yw'r anifail hwn, ond un o'r rhai mwyaf hynafol, o deulu'r Hyracodont. Ar ôl yfed am ychydig mae'n edrych o'i gwmpas yn wyliadwrus cyn rhedeg yn gyflym i'r pellter wrth i ddau Eneteledont garlamu heibio, eu carnau yn swnio fel stalwyni. Yn edrych fel baedd gwyllt ond yr un faint â buwch, nid oes anifail mwy brawychus (na hyll) yr olwg i'w gael yn y cyfnod hwn. Dychmygwch weld un o'r rhain ym Mharc Biwt heddiw! Mae ganddynt ddeiet gymysg o blanhigion a chig, felly does dim syndod i'r Hyracodont ddiflannu mor gyflym. Efallai y dylem ninnau symud ymlaen i'n siwrne nesaf yn weddol fuan hefyd.

Parhaodd yr Oligocene tan tua 23 miliwn o flynyddoedd yn ôl, pan dwymodd yr hinsawdd ychydig gan hebrwng fforestydd yn ôl i sawl rhanbarth y byd gan gynnwys lleoliad Caerdydd heddiw. Ond, yn ogystal â hynny, ymledodd cynefin newydd ar draws y byd - glaswelltir, a chychwynwyd ar gyfres o ddigwyddiadau a wnaeth, yn y pen draw, arwain at oes iâ. Mae'n amser i ni ymweld â'r Miocene!

***Lluniau: Laura Giles***

# Bwytai Merch y Ddinas



## "Sopra 73"

**Lowri Haf Cooke**

Gyda dyfodiad mis Mawrth fe groesawn y gwanwyn o'r diwedd, a chwa o awyr iach yn y brifddinas. Wedi gaeaf go bryderus mae hyder newydd ym myd y bwytai ers codi'r cyfyngiadau. Nid yn unig ymysg y perchnogion, ond y cwsmeriaid yn ogystal, sy'n barod i fentro allan a chefnogi mentrau newydd.



Un o'r rheiny yw Sopra 73. Ystyr 'sopra' yw 'uwchben' mewn Eidaleg a lleolir y bwyty uwchben Pizzeria Villagio, rhif 73 Heol Merthyr, yr Eglwys Newydd. Fe gaeodd y Lolfa Thai, y busnes blaenorol a fu yno ers degawd, yn ystod y pandemig. Roedd yn un o'r cuddfannau hyfryd hynny sy'n frith yn ein maestrefi. (Roedd e hyd yn oed yn lleoliad dêt dymunol yn un o nofelau'r awdur lleol, Llwyd Owen!) Wel diolch i'r drefn, denodd Marc Palladino - perchennog Pizzeria Villagio - un o feibion eraill y ddinas yn ôl i'w gynefin, sef Padrig 'Paj' Jones.



Heb ddatgelu ei CV cyfan, cychwynnodd 'Paj' ei yrfa yn fachgen ifanc yn cynorthwyo'i rieni yn eu gwesty Llety Cymro ar Heol y Gadeirlan. Cafodd swydd yn ei arddegau yn Pizzeria Villagio, cyn symud i Le Cassoulet, Pontcanna, a Spanghero's yng nghanol y ddinas. Wedi bwrw'i brentisiaeth yn Llundain – dan adain Marco Pierre White, a Pierre Koffman – daeth adre i sefydlu Le Gallois gyda Francis Dupuy, ei frawd-yng nghyfraith.

Ar droad y mileniwm Le Gallois oedd 'canolfan y bydysawd', rhwng cyfnodau 'Cŵl Cymru' a Datganoli. Tra'r oedd y byrddau'n orlawn o bwysigion, roedd y gegin danllyd yn ffwrnais awen i lu o gogyddion - Grady Atkins (Bacareto bellach) a Tomos Parry, bwyty Michelin 'Brat' yn Llundain, yn eu plith. Crëwyd seigiau arleosol, a diffiniwyd cuisine Cymreig cyfoes, trwy briodi cynnyrch lleol o'r tir a'r môr. Crëwyd y clasur o gwrs cyntaf, sef saig y cregyn bylchog, a gyfunwyd â phwdin gwaed, bol porc a sôs coch Mari Waedlyd. Perffeithiwyd y pwdin 'parfait' a brofodd Paj gyntaf yn Spanghero's tra'n gogydd ifanc. Coginiwyd seigiau '*slow and low*' yn llawn angerdd ac amynedd, gan ddefnyddio cynnyrch cynhenid i Gymru ar y cyd â chyffyrddiadau Eidalaidd a Ffrengig.

Caewyd Le Gallois yn 2008 ac aeth y ddau gogydd i gyfeiriadau gwahanol – Francis i sefydlu Pier 64, Boof, a Chez Francis ym Mhenarth a Threganna; Padrig i The King's Arms ym Mhentyrch, Yr Hen Lyfrgell a The Bistro, Penarth, ymhlith eraill, cyn glanio yng nghegin Gwesty Cymru, Aberystwyth. A dyna lle'r oedd y cogydd, yn fodlon ei fyd, pan darodd y pandemig.

Newidiodd y pandemig bopeth ar amrantiad i gymaint o bobol yn y diwydiant, ac wedi i Gwesty Cymru gau, symudodd Paj yn ôl i'r brifddinas. Cysylltodd â Marc Palladino, ei hen fòs yn yr Eglwys Newydd a dyma ddechrau trafod a chynllunio, ac estyn gwahoddiad i Francis Dupuy – oedd wedi sefydlu cwmni Gwinoedd Broga - i ymuno yn y fenter newydd. Agorodd y bwyty Ffrengig-Cymreig-Eidalaidd yn swyddogol ar 10 Ragfyr. A dim ond canmoliaeth dwi wedi ei glywed ers hynny.

Gwelais innau gyfle ar ddiwedd mis Chwefror i fynd yno am dro am flas o'r hyn ro'n i wedi ofni oedd wedi diflannu am byth. Ches i mo'n siomi! Croeso bendigedig gan wyneb cyfarwydd Francis, '*front of house*' gorau'r ddinas, heb amheuaeth. Mae'r ystafell ar y llawr cyntaf wedi derbyn côt o baent glas Ffrengig - cefnlen heddychlon i waith celf Anthony Evans a'i fab Aron, a'r gwydrau dŵr o liw lapis lazuli. Cynigir sawl bwydlen wahanol, gan gynnwys bwydlen ginio am bris gostyngol (2 gwrs am £18, £22 am 3 chwrs), ac roedd nodi'r seigiau clasurol unwaith eto fel bod mewn aduniad â hen ffrindiau mynwesol!

Beth yw'r dewisiadau delfrydol felly? Beth am ddechrau gyda'r cregyn gleision mewn hufen seidr a Madras ysgafn, cyn claddu stecen llygaid yr asen a sglodion? Neu beth am glasur 'newydd' Le Gallois - y cregyn bylchog 'tir a môr' - wedi'i ddilyn gan ddraenog y môr (monkfish) a ratatouille? Roedd hyd yn oed 'foie gras' wedi'i ffrio ar gael fel saig gyntaf arbennig. Ond a minnau yno am ginio ysgafn, dewisais ddau hen ffefryn oddi ar y fwydlen ostyngol; y cawl pysgod cysurlon, a glacé nougat cnau cyll, yn adlais o'r parfait perffaith, i bwdin. A glasied o Prosecco. Ardderchog yn wir.

Ga i felly eich cynghori chi i archebu bwrdd yno ar fyrder, am flas o'r 'cyfarwydd' i nodi pennod newydd wedi cyfnod mor rhyfedd.

**Sopra 73, 73b Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd CF14 1DD; 02920 611222**

***Bwytai Cymru* a *Canllaw Bach Caerdydd* gan Lowri Haf Cooke (Gwasg Gomer) £9.99**

# Cymrodorion Caerdydd

Cynhaliodd Cymrodorion Caerdydd eu cyfarfod cyntaf eleni nos Wener 4 Chwefror. Unwaith eto cyfarfod ar Zoom oedd hwn, ac yr oedd yn braf cael cwmni nifer o 'ymwelwyr' a ymunodd gyda ni i wrando ar gyflwyniad nodedig iawn.





Yr Athro Mererid Hopwood, sydd yn frodor o Gaerdydd, oedd yn traddodi cyflwyniad dan y teitl 'Dychmygu Iaith'. Os oes rhywun wedi ymgydnabod â hyd a lled a dyfnder ieithoedd, Mererid Hopwood yw honno. Wedi graddio mewn Almaeneg a Sbaeneg, treuliodd gyfnodau fel darlithydd Almaeneg ac athrawes Sbaeneg. Yna bu'n Athro Ieithoedd a'r Cwricwlwm Cymreig ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, a bellach hi yw Athro'r Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Gellid dehongli teitl y sgwrs mewn sawl ffordd, wrth gwrs. Tybed, er enghraifft, a oedd disgwyl i ni greu iaith ddychmygol? Na, nid oedd gofyn i ni wneud hynny, ond yn hytrach ein gwahodd i ddelweddu ein hiaith mewn gwahanol ffyrdd wnaeth Mererid.

A hithau yn awdurdod ar ei waith, nid yw'n syndod iddi ddewis dilyn ffyrdd gwahanol Waldo o feddwl am yr iaith Gymraeg. Weithiau mae'n gweld 'Yr Heniaith' yn ei thrueni

*... yn crwydro gan ymwrando â lleisiau*
*Ar ddisperod o'i gwrogaeth hen;*
*Ac sydd yn holi pa yfory a fydd.*

Ni all y sawl sydd yn gweld ei chyflwr fod yn ddi-daro;

*Nyni, a wêl ei hurddas trwy niwl ei hadfyd,*
*Codwn, yma, yr hen feini annistryw.*

Meddai am 'Gymru a Chymraeg';

*Mae'n rhaid inni hawlio'r preswyl heb holi'r pris.*

Ond, ar nodyn gobeithiol mae'n diweddu;

*Bydd hi mor ieuanc ag erioed, mor llawn dirieidi.*

Hyfryd oedd cael gwrando ar Mererid yn darllen y cerddi yn ogystal â chlywed ei dehongliad ohonynt. Mynegodd y Llywydd, Bill Davies, ein gwerthfawrogiad a'n diolch am gyflwyniad cofiadwy iawn.

# Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd

Yn ystod mis Chwefror croesawyd dau o westeion sydd yn hanu'n wreiddiol o ddwy ardal wahanol yn Sir Gaerfyrddin. Ac roedd y cynhesrwydd sydd yn eu calonnau tuag at y bröydd hyn yn amlwg Iawn.





Ar 4 Chwefror, canolbwyntiodd Peter Griffiths, Pentyrch, cyn-brifathro ysgolion uwchradd Cymraeg Llanhari a Gartholwg, ar ei fro enedigol yng Nghwm Gwendraeth. Pwysleisiodd ddeuoliaeth y Cwm, sef y diwydiannol a'r amaethyddol, gan fanylu'n helaeth ar y glofeydd glo carreg a'r glowyr, a nodweddion y gwahanol bentrefi.

Disgrifiodd ei blentyndod ym mhentref Crwbin, a dylanwad ei rieni a'r capel yn Ebeneser arno. Derbyniodd ei addysg yn yr ysgol gynradd leol ac Ysgol Uwchradd y Gwendraeth. Hiraethai am y dyddiau cynnar, 'fy ysbryd o hyd ar wasgar ar hyd y llethrau'. Adroddodd ei barodi ef o gerdd 'Bro' gan T. H. Parry Williams. Ymhyfryda Peter yng ngwaith Menter Cwm Gwendraeth a'i hymdrechion i ddiogelu'r iaith Gymraeg. Soniodd hefyd am yr ymgyrch lwyddiannus gan rai o'i berthnasau a'i ffrindiau yn y 60au i achub pentref Llangyndeyrn a'r ardal gyfagos rhag ei boddi i gyflenwi dŵr i Abertawe.

Ar 18 Chwefror aeth Sarah Hopkin â'r gwrandawyr i'w hardal enedigol ym Mrynaman ar gyrion y Mynydd Du. Mae'n wraig ei milltir sgwar - athrawes leol, beirniad dawnsio gwerin cenedlaethol ac aelod o Orsedd y Beirdd, 'Merch y Mynydd Du'.

Canolbwyntiodd ei sgwrs ar hanes a datblygiad y Mynydd – y Gwter Fawr a'r diwydiannau calch, glo, mawn a haearn. Rhestrodd lu o enwau lleoedd prydferth, er enghraifft Foel Fraith, Pwlldu, Penrhiw-wen, Nant Cwch a'r Garnedd Lwyd. Diddorol oedd clywed am grefftau a ddysgodd yng nghwmni ei mamgu a'i thadcu oedd yn byw ar y mynydd, er enghraifft plygu brwyn a saethu colomennod clai.

Ar ddydd Gwener, 4 Mawrth y siaradwr gwadd fydd Alun Wyn Bevan, yr hanesydd a'r darlledwr cyfarwydd, ac ar 18 Mawrth cawn gwmni y Parchedig Peter Dewi Richards, cyn-weinidog y Bedyddwyr yn Llundain .

**Crefydd a The Prynhawn –**
**Gweithgareddau mis Mawrth**

Wedi holl ddathliadau Gŵyl Ddewi, edrychwn ymlaen at fis prysur arall o weithgareddau.

Yr Athro D. Densil Morgan fydd arweinydd y cwrs nesaf yn ein cyfres 'Hanes Cymru' ar nosweithiau Llun – 14, 21, 28 Mawrth. Agweddau ar hanes crefydd yng Nghymru fydd dan sylw wrth i ni ystyried Cristnogaeth a'r Gymru fodern, 1760-2000.

Bydd pob sesiwn Zoom yn olrhain hanes cyfnod gwahanol a'r pynciau trafod yn cynnwys Williams Pantycelyn a'r Diwygiad Efengylaidd; Crefydd a'r Rhyfel Mawr a'r Argyfwng Ymneilltuaeth. Am fwy o fanylion, ac i gofrestru, ewch i'r adran 'Oedolion' ar wefan Menter Caerdydd.

Os mai cerddoriaeth sy'n mynd â'ch bryd, beth am fynychu ein cyngherddau cymunedol bob bore Llun am 11.30 yng Nghanolfan Beulah, Rhiwbeina? Dyma brosiect ar y cyd gyda Live Music Now ac mae'r sesiynau'n rhad ac am ddim. Tri chyngerdd sy'n weddill yn y gyfres - 7, 14 a 21 Mawrth yng nghwmni'r cerddor Aneirin Jones.

Cofiwch hefyd am Sgwrs y Mis, nos Iau, 31 Mawrth yng nghwmni'r Athro Mererid Hopwood. Ac yn y Bore Coffi Misol i Ddysgwyr, fore Gwener ola'r mis ar Zoom, Gareth Lloyd Roberts fydd yn sgwrsio am gynlluniau diweddaraf Canolfan Gelfyddydol yr Eglwys Norwyaidd.

Wedi cael llond bol o goginio? Beth am gofrestru'r plant ar gyfer ein sesiynau blasus newydd yng nghwmni Ian Williams, enillydd Yr Academi Felys ar S4C? Mewn cwrs 5 wythnos ar Zoom, gall plant 8-13




oed ddysgu sut mae paratoi'r te prynhawn perffaith! (Yn dechrau, 8 Mawrth).

Datblygiad ffrwydrol arall yw ein partneriaeth gyda Spark Lab Cymru. Mae cynlluniau cyffrous ar y gweill ar gyfer Wythnos Wyddoniaeth (11-20 Mawrth). Felly os oes gwyddonwyr bach brwd yn eich teulu chi, cadwch olwg ar y cyfryngau cymdeithasol am fwy o fanylion.

I'r rhai sydd â phlant dan 4 oed, cofiwch am Amser Stori a'r gweithdai hwyliog mewn amryw o leoliadau. Dewch i ganu a dawnsio gyda Siani Sionc neu i fwynhau sbri'r syrcas gyda 'Rhian Circus Cymru' .

Beth bynnag yw'ch oedran a'ch diddordeb, mae rhywbeth i bawb gyda'r Mentrau!
mentercaerdydd.cymru / menterbromorgannwg.cymru
Facebook: @m.caerdydd / @MIBroMorgannwg
Ihttps://www.instagram.com/mentercaerdydd/
post@mentercaerdydd.cymru / 029 2068 9888.

# Merched y Wawr
# Y Felin

**Haf Weighton: Braslunio gyda edau**

Un gair sydd i ddisgrifio gwaith yr arlunydd Haf Weighton - rhyfeddol!

Yn gyn ddisgybl yn ysgolion Bryntaf, Y Wern a Glantaf, arweiniodd ei thalent enfawr hi i arddangos yn oriel Saatchi yn Llundain. Brodwaith yw ei harbenigedd, brodwaith â llaw a pheiriant. Ond mae ei llyfrau braslunio yn dyst i'w dawn lluniadu ac arsylwi. Gwna i'r cyfarwydd megis canol Caerdydd neu ysbyty Rookwood ymddangos yn newydd sbon drwy gyfrwng edau a phaent.



Gwelsom ffrwyth prosiectau, dan arweiniad Haf, blant ac oedolion, pob un yn wahanol ac unigryw. Ac roedd y gwaith personol yn pefrio'n lliwgar, yn gwneud i ni graffu ar fanylder ac amrywiaeth y pwythau.

Pleser pur oedd dod i nabod Haf a gweld ei gwaith ... rhyfeddol!

*Glenys Evans*

# .Frank Hennessy

***Rhai o'i atgofion personol o'i gyfnod yn gweithio yng Nghanolfan Ddarlledu BBC Cymru yn Llandaf***

Ces i sioc fawr pan ymunais i â BBC Cymru am y tro cyntaf fel cyflwynydd llawrydd yn 1986. Allai'r gwahaniaeth rhwng fy ngwaith darlledu blaenorol gyda CBC ddim fod wedi bod yn fwy. Ro'n i wedi mynd o gymryd bocs o recordiau lawr i West Canal Wharf, i eistedd mewn swyddfa fawr ar y llawr cyntaf yn union dros y brif fynedfa i BBC Cymru. Nid yn unig roedd gen i gynhyrchydd, ond roedd gen i hefyd gynorthwy-ydd darlledu ac ymchwilydd.

Y cwestiwn yn fy mhen oedd hyn - sut gallwn i dreulio fy amser yn ddefnyddiol pan ro'n i wedi fy amgylchynu gan yr holl weithwyr proffesiynol hyn? Daeth yr ateb yn gyflym. Ces i fy anfon allan gyda pheiriant recordio a meicroffon i gyfweld â phobl ddiddorol ar gyfer fy rhaglen radio ddau brynhawn yr wythnos.

Gymaint ag yr oeddwn i'n mwynhau bod yn rhydd i grwydro a siarad â phobl yn y cymoedd a thu hwnt, ro'n i wrth fy modd wrth fy nesg yn y Ganolfan Ddarlledu, yn gwylio personoliaethau mawr, gwleidyddion ac enwogion y dydd yn mynd a dod.

Roedd y Ganolfan Ddarlledu yn adeilad newydd sbon o'r radd flaenaf. Roedd bwrlwm ac egni a gwir deimlad o hwyl o gwmpas y lle. Ychydig flynyddoedd yn flaenorol, y cyfan a wyddwn i am adeilad Llandaf oedd Clwb y BBC y tu cefn i'r prif adeilad, lle bach y gellid cael mynediad iddo trwy ddringo grisiau reit beryglus a simsan. Roedd y BBC yn ymffrostio yn eu clwb hardd lle cai llawer o ddathliadau personol fel penblwyddi eu cynnal yn ogystal â nosweithiau llawen o gerddoriaeth a chân. Fe gynhaliais i noson werin yn y clwb yn flynyddol am dros ugain mlynedd. Roedd hi bob amser yn llawn. Yn y dyddiau cynnar hynny o ddarlledu yn Llandaf roedd bron pawb yn defnyddio'r clwb ar gyfer rhwydweithio, datblygu syniadau a chyfnewid straeon. Roeddwn i wrth fy modd.

Dw i'n cyfaddef imi golli mwy nag ychydig o ddagrau dros y misoedd diwetha oherwydd, fesul tipyn, dymchwelwyd yr adeilad a fu'n rhan o'm bywyd am gynifer o flynyddoedd. Dw i'n sicr nad fi yw'r unig un sy'n teimlo bod y lle wedi bod yn fwy nag adeilad yn unig. Mae'r personoliaethau mawr, synau newydd, comedïwyr, cynhyrchwyr rhaglenni dogfen a cherddorion gwych wedi ychwanegu at ysbryd yr hyn a fu unwaith yn galon ac enaid darlledu yng Nghymru.

Tybed, ai ffawd oedd yn gyfrifol bod y cyfnod clo cyntaf yn cyd-ddigwydd â'r symud i bencadlys newydd sbon y BBC yn y Sgwâr Canolog. Beth bynnag, mae'n dyst i broffesiynoldeb fy nghydweithwyr eu bod wedi llwyddo i gadw'r holl raglenni a fwriadwyd ar yr awyr. Fesul tipyn, byddwn i gyd yn ymgyfarwyddo â'r newidiadau. Dw i'n ddigon ffodus i fod wedi gweld dwy Ganolfan Ddarlledu wych yng Nghaerdydd.

Felly ffarwel Hen Ffrind, diolch am yr atgofion.
Wela i chi yn y dre - rhaid i'r sioe fynd yn ei blaen.

*[Diolch am ganiatâd i ddefnyddio'r erthygl hon ymddangosodd yn rhifyn Gwanwyn Cylchlythyr Cymdeithas Llandaf.]*



## Dringo'r goeden!



Flynyddoedd yn ôl a minnau'n gweithio fel Swyddog Adnoddau i Wasanaeth Ieuenctid Eglwys Bresbyteraidd Cymru, rwy'n cofio dringo bariau gymnasteg uchel mewn neuadd ysgol. Pam? Am ein bod ni ar daith ysgolion yn cyflwyno hanes Sacheus yn dringo'r goeden er mwyn gweld Iesu. Nid fi oedd yr ieuengaf na'r ystwythaf o'r criw…..ond fi oedd y byrraf ac rwy'n cofio'r disgyblion yn edrych mewn rhyfeddod (gan feddwl fy mod i'n hollol wallgo', mae'n siŵr!!)

Mam ifanc oeddwn i bryd hynny. Erbyn hyn rwy'n Nain ond rwy'n dal i wneud yr un peth. Na, nid dringo bariau gymnasteg uchel, ond cyflwyno hanes Sacheus yn cyfarfod Iesu, profiad newidiodd ei fywyd. Dyna un o'r straeon mae criw Agor y Llyfr Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd wedi eu ffilmio'n ddiweddar at ddefnydd Ysgolion Cynradd Cymraeg Caerdydd. Ffilmiwyd hefyd hanes Iesu'n croesawu plant.

Bwriad cynllun Agor y Llyfr (Cymdeithas y Beibl) yw mynd i ysgolion a chyflwyno straeon o'r Beibl i'r plant yn weledol, a rhoi cyfle i'r disgyblion gael munud i feddwl ac, os ydynt yn dymuno hynny, i ymuno mewn gweddi. Gan na fu modd mynd i mewn i'r ysgolion dros gyfnod Covid, mae'r gwaith yn digwydd ar hyn o bryd trwy fideos byr.

Dim ond rhai disgyblion gafodd fod yn dyst i'm gwrhydri yn dringo'n uchel nôl ar ddechrau'r 90au, ond mae modd i bob ysgol yn ardal Caerdydd fanteisio ar ddarpariaeth Agor y Llyfr heddiw.

**Neges i'r Ysgolion**: anfonir dolen i'r fideos drwy e-bost i'r ysgolion i'w defnyddio fel adnodd munud i feddwl ar ddechrau'r dydd mewn dosbarthiadau unigol, gwersi crefydd, gwerthoedd a moeseg neu ar gyfer gwasanaethau ysgol gyfan. Bydd fideos Pasg ar gael cyn hir. Am fwy o wybodaeth:
aluntudur@btinternet.com

*Catrin Roberts*

## Ynghudd mewn man amlwg: Byncer o'r Rhyfel Oer yng Nghaerdydd yn derbyn statws adeilad rhestredig Gradd II

Mae Canolfan Is-reoli Llandaf yn adeilad unllawr, heb ffenestr sydd prin yn denu sylw aelodau'r cyhoedd, ond bu unwaith yn cadw cyfrinachau am ran Cymru yn y Rhyfel Oer.

I gydnabod hyn, mae Cadw wedi dyfarnu statws adeilad rhestredig Gradd II i'r adeilad anarferol hwn gan gydnabod bod y safle yn lleoliad sy'n ein hatgoffa o ba mor agos y daeth Cymru at ddifodiant niwclear yn yr ugeinfed ganrif.



Mae adeilad y Ganolfan Is-reoli ar gyrion allanol gerddi teras hardd Cwrt Insole — plasty Fictoraidd a fu, yn ystod yr Ail Ryfel Byd, yn ganolfan i'r gwasanaethau brys a ymatebai i'r Blitz yng Nghaerdydd.

Yn y blynyddoedd wedi'r rhyfel, cynyddodd tensiynau rhwng yr hen gynghreiriaid ac yn 1948 ailsefydlwyd y Corfflu Amddiffyn Sifil ledled y Deyrnas Unedig gan arwain Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerdydd i wneud cynlluniau ar gyfer trydydd Rhyfel Byd.

Cafodd arfau niwclear eu dyfeisio a'u creu gan yr Unol Daleithiau. Yn 1949 cynhyrchodd yr Undeb Sofietaidd eu bom atomig cyntaf, gyda Phrydain yn eu dilyn yn 1952.

Gyda'r datblygiadau hyn, parhau i gynyddu wnâi'r tensiynau ac, yn ystod 1952, adeiladodd syrfëwr dinas Caerdydd, EC Roberts, Ganolfan Rheoli Amddiffyn Sifil ar Ffordd Allensbank, wrth ymyl yr hyn a fu unwaith yn lleoliad hollbwysig ar gyfer cyflenwad dŵr y ddinas. Adeiladodd hefyd ddwy Ganolfan Is-reoli yn nwyrain a gorllewin y ddinas, yng Nghyncoed a Llandaf.

Canolfan Is-reoli Llandaf yw'r unig un o'r adeiladau hyn sydd wedi goroesi. Er ei fod yn gadarn, mae'r adeilad yn amlwg yn gynnyrch blynyddoedd cynnar y Rhyfel Oer ac nid oedd gobaith iddo wrthsefyll bom hydrogen yn disgyn ar Gaerdydd.

Paratoi ar gyfer rhyfel oedd prif ganolbwynt y Corfflu Amddiffyn Sifil, ond ymatebai ei aelodau i argyfyngau eraill hefyd, gan gynnwys llifogydd a thrychineb Aberfan. Hyd yn oed ar ôl i'r Corfflu Amddiffyn Sifil gael ei ddiddymu yn 1968, parhaodd gwirfoddolwyr i ofalu am yr adeilad a storio cyflenwadau brys yno tan ddiwedd y Rhyfel Oer ar ddechrau'r 1990au.

Yn ôl Dr Christopher Thomas, Swyddog Adeiladau Rhestredig Cadw: "Ers 1945, mae bygythiad rhyfel niwclear wedi siapio hanes y byd — ond bu'n rhan bwysig o orffennol Cymru hefyd, fel y dengys Canolfan Is-reoli Llandaf. Mae bodolaeth yr adeilad yn dangos pa mor ddifrifol yr ystyriai pobl Caerdydd y bygythiad hwn, a sut y gwnaethon nhw baratoi i'w oroesi.

"Rydyn ni mor falch o allu rhestru'r adeilad hynod hwn, sydd bellach wedi'i ddiogelu fel enghraifft brin o gynllunio amddiffyn sifil — a adeiladwyd ar gyfer rhyfel a ofnid yn fawr, ond na ddaeth erioed, diolch byth. Hefyd, mae'n heneb ingol i wirfoddolwyr anghofiedig y Corfflu Amddiffyn Sifil yn y Rhyfel Oer."

*Dafydd Wyn Orritt (cadw@equinox.wales)*

## Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Ni fu'n bosibl cynnal cyfarfod fis Chwefror ac felly roeddem yn ddiolchgar i Gymdeithas Wyddonol Gwynedd am ei gwahoddiad i ni fynd ati trwy Zoom ar 14 Chwefror. Nia Heulwen Jones oedd yn traethu ar y testun, 'Problem Macro o'r Byd Micro: beth gallwn ni ei ddysgu o'r broblem lygredd microblastig'.

Merch o Gaerffili yw Nia. Yno cafodd ei haddysg gynradd cyn symud i Ysgol Gyfun Cwm Rhymni ac oddi yno i Brifysgol Caerdydd lle graddiodd mewn Daearyddiaeth Amgylcheddol. Ar hyn o bryd mae'n dilyn rhaglen ymchwil yn Ysgol Gwyddorau'r Eigion, Prifysgol Bangor, gyda golwg ar ennill gradd Ph.D.

Cafwyd cyflwyniad cefndirol yn nodi yr amrywiaeth eang iawn sydd yn y teitl 'plastigau', yn enwedig o ran maintioli a diffinio microblastigau a nanoblastigau. Nodwyd hefyd yr amrywiaeth yn ffynonellau y mathau gwahanol e.e. diwydiannau creu plastigau, peiriannau golchi yn y cartref, teiars ceir, gwastraff cartrefi. Pob un o'r rhain yn arwain at sbwriel a llygredd plastig penodol. Cafwyd amlinelliad o'r newid syfrdanol a fu yn ein cymdeithas dros hanner can mlynedd yn y defnydd o blastigion at wahanol bwrpasau, bron y cyfan at hwylustod bywyd beunyddiol ond llawer hefyd at ddulliau mwy effeithiol o gynnal diwydiannau. Dim ond yn gymharol ddiweddar y daethpwyd i sylweddoli cymaint y gwastraff di-ofal a'r llygredd cysylltiedig ar dir a môr, yr olaf trwy raglenni teledu trawiadol David Attenborough.

Mae ymchwil Nia yn canolbwyntio ar y llygredd plastig yn ardal Aberconwy ar arfordir Gogledd Cymru, yn benodol. Mae modd dilyn llwybr y plastig a nodi pa fathau o blastig, yn ôl dwyster, sy'n dylanwadu ar ymddygiad y gwastraff, er enghraifft, a ydyw'n arnofio neu'n suddo a sut mae'n symud ar draws yr aber.

Yn y drafodaeth soniwyd am sawl agwedd ar gymhlethdod yr astudiaeth, yn enwedig o gofio cymhlethdod natur cemegol y deunyddiau. At hyn, nid bychan o beth yw'r amrywiaeth yn y farn wleidyddol ac economaidd sy'n haeddu ac yn hawlio sylw arweinwyr diwydiant.

********************

Ar 13 Tachwedd 2021 cynhaliwyd Gwasanaeth Coffa Syr John Meurig Thomas. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â nevillebevans@gmail.com

# Siaradwyr Cymraeg Newydd

## *Edrych ymlaen i'r gwanwyn*

## Gwilym Dafydd



**Clwb Gwylio Adar**



Canslwyd cyfarfod mis Ionawr oherwydd tywydd gwael ond cafwyd cyfle i ailafael yn ein gweithgarwch ar fore Sadwrn, 6 Chwefror. Penderfynwyd cyfarfod tu allan i neuadd y wardeniaid yn Fferm y Fforest. Daeth chwech ynghyd gan gynnwys Mike Treganna a John Goodwin am y tro cyntaf. Arweiniwyd y daith gerdded gan Eirian ac os cofiaf yn gywir, nododd John enwau 26 aderyn yn Gymraeg yn ei lyfr nodiadau. Erbyn i chi ddarllen hwn, gobeithio y byddwn wedi mwynhau bore hwylus arall ar fore Sadwrn, 5 Mawrth. Y bwriad yw cyfarfod ar fore Sadwrn cyntaf o'r mis am 10.30. Cysylltwch â @GwilymDafydd ar Trydar neu e-bost eirianagwilym@gmail.com am fwy o fanylion. Croeso i bawb.

**Gair gan Daniel Carter**



*David Thomas*

Ers mis Ebrill llynedd rydw i wedi gweithio fel un o brif ddatblygwyr gwe ar brosiect cyffrous iawn fel rhan o dîm eithaf bach ar gyfer cwmni sydd wedi sefydlu yng Nghaerdydd. lovetovisit.com yw'r platfform digidol newydd ar gyfer pobl i ddarganfod pethau i'w gwneud gan gynnwys theatrau, atyniadau, digwyddiadau, gweithgareddau a mwy dros y DU. Bydd yn bosib creu amserlenni teithio personol a phrynu tocynnau yn uniongyrchol trwy'r wefan heb ei gadael.

Byddwn yn ychwanegu llawer mwy o bethau dros y misoedd i ddod yn enwedig cynnwys dwyieithog yn y Gymraeg. Rydw i'n falch iawn i fod yn rhan o rywbeth sydd yn cefnogi atyniadau yng Nghymru a thu hwnt.

**Gair gan Janet Tabor**

Yn anffodus, mae'n rhaid i lawer ohonon ni barhau i ddysgu Cymraeg ar-lein. Roedd hi'n wych, fodd bynnag, ail-ddechrau ein grŵp sgwrsio Cymraeg yng Ngwenfô yn ddiweddar wyneb yn wyneb. Y tro hwn mewn lleoliad newydd. Rydyn ni'n cwrdd nawr yn ein hwb pentref newydd sbon. Mae'r adeilad newydd yn gartref i'r llyfrgell, yn ogystal â chaffi. Mae grwpiau amrywiol wedi dechrau cyfarfod yno, ac mae'n dod yn lleoliad poblogaidd iawn. Mae'r criw Cymraeg yn cyfarfod bob bore Llun am un ar ddeg o'r gloch, ac fel arfer mae dysgwyr o bob lefel yno sy'n mwynhau cyfle i siarad a gloywi eu Cymraeg. Mae o leiaf ddeg ohonon ni, a dweud y gwir yn ystod y sesiwn olaf roedd un ar bymtheg! Hefyd, achos ein bod ni nawr yn y llyfrgell, rydyn ni'n gallu defnyddio ein llyfrau Cymraeg yn ystod y sesiwn. Cofiwch ddod draw i fwynhau paned o goffi a chwmni da. Rydyn ni yno bob wythnos!

**Gair gan David Thomas (Dysgwr y Flwyddyn, 2021-22)**

**Am y Tywydd Gorau Tewi?**

Sut dywydd ydych chi wedi cael yn ddiweddar? Pawb wedi goroesi'r stormydd sydd wedi pasio heibio un ar ôl y llall?

Fan hyn yn Sir Gâr ro'n ni'n disgwyl rhyw ddifrod ar y fferm a chawson ni ddim ein siomi gan Storm Eunice ar ôl i ni golli rhan o do'r sgubor a choeden annwyl iawn. Amser i ni gyfri'n bendithion. Gallasai fod yn llawer gwaeth.

Mae'r tywydd yn rhywfath o obsesiwn i ni fan hyn yng Nghymru ble mae'r tywydd yn newid trwy'r amser. Dyna rywbeth sydd yn help mawr i ddysgwyr. Sut ddylen ni agor sgwrs gyda ffrind, cymydog, neu unrhyw un yn y Gymraeg? Gwnewch sylwadau am y tywydd, wrth gwrs!

'Am dywydd ofnadwy heddiw!' Rydw i'n dibynnu ar y tywydd i gychwyn unrhyw sgwrs fel ffordd o dorri'r iâ (ddim yn llythrennol, dylwn i ddweud).

Mae'r tywydd yn gwneud cymwynas arall hefyd, trwy ddatgelu sut mae pobl Cymru yn meddwl. Rydw i'n hoff iawn o ddywediadau fel 'Glaw Mehefin, Cynnydd Yr Egin', 'Eira Mân, Eira Mawr' ac ati.

Yn ystod y cyfnodau clo, peintiwyd arwyddion lliwgar gan blant y ffermydd lleol i osod ar ben lonydd eu ffermydd. Roedd pob un yn cynnwys enfysau a negeseuon i ddweud diolch wrth werthwyr allweddol.

Beth oedd y neges a welais i ym mhobman ar lonydd gorllewin Sir Gâr? 'Daw eto haul ar fryn'.

Wrth i ni aros am y gwanwyn, am y tywydd gorau tewi? Dim o gwbl.

# Llys a Llan

*Colofn sy'n crwydro ar hyd meysydd llên, crefydd a hanes yng Nghaerdydd a'r Fro*

Yr Athro E. Wyn James



**Caethwasiaeth Jamaica, Bedyddwyr Hengoed a Solomon Nutry** (Rhan 3)

Yn rhan gyntaf yr erthygl hon, soniwyd am y ffordd y dechreuodd y fasnach mewn caethion du o ddifrif yn hanes Prydain gyda datblygu'r diwydiant siwgr yn ynysoedd y Caribî, yn enwedig ar ôl i Jamaica ddod i feddiant Prydain yn yr 17eg ganrif; a nodwyd lle amlwg yr herwlongwr enwog, Harri Morgan, ac aelodau eraill o deulu Morganiaid Llanrhymni, ym mywyd Jamaica yn y cyfnod cynnar hwnnw.

O hynny hyd at ddechrau'r 19eg ganrif, cludwyd dros dair miliwn o gaethion gan longau Prydeinig o Orllewin Affrica i'r Byd Newydd, a hynny o dan amodau cwbl erchyll. Ond dechreuodd yr ymgyrch i ddileu'r gaethfasnach fagu nerth arwyddocaol o'r 1780au ymlaen, nes llwyddo erbyn 1792 i gael dros 300,000 o bobl Prydain i ymatal rhag defnyddio siwgr o'r Caribî; a phen draw'r ymgyrchu caled a hirfaith hwnnw oedd llwyddo i gael Senedd Prydain i ddileu'r fasnach mewn caethion yn 1807.

Fel y crybwyllwyd yn rhan gyntaf yr erthygl, un o'r ymgyrchwyr Cymreig mwyaf tanbaid yn erbyn y gaethfasnach oedd Morgan John Rhys (1760–1804) o'r Graddfa ger Llanbradach, a fagwyd ymhlith y Bedyddwyr yn Hengoed ac a fu am gyfnod yn fyfyriwr yn Athrofa'r Bedyddwyr ym Mryste ac yn weinidog mewn eglwys Fedyddiedig ym Mhen-y-garn ger Pont-y-pŵl; ac fe barhaodd i ymgyrchu'n egnïol yn erbyn caethwasiaeth yn America, wedi iddo ffoi yno yn 1794 rhag cael ei garcharu oherwydd ei syniadau radicalaidd.

Dileu'r fasnach mewn caethion a wnaeth Senedd Prydain yn 1807, ond roedd yn parhau yn gyfreithlon i gadw caethion yn Jamaica a thiriogaethau tramor eraill Prydain hyd nes i'r Senedd ddileu caethwasiaeth ynddynt yng nghanol y 1830au. Roedd hynny yn ffrwyth ail don o ymgyrchu taer a ddechreuodd tua 1823. Roedd Bedyddwyr yn amlwg iawn yn yr ymgyrchu hwnnw, a Bedyddwyr Bryste yn flaenllaw yn eu plith.

Ymhlith yr amlycaf oedd dau o aelodau eglwys Fedyddiedig Broadmead, Bryste, sef Mary Watkins (1798–1866) a William Knibb (1803–45), a briododd yn Hydref 1824 yn fuan cyn iddynt fynd i weithio ym maes cenhadol y Bedyddwyr yn Jamaica. Brodor o Kettering yn swydd Northampton oedd William, ond roedd Mary yn wreiddiol o Bont-y-pŵl ac yn siarad Cymraeg.

Roedd cenhadon y Bedyddwyr yn Jamaica yn wrthwynebus iawn i gaethwasiaeth, ac fel y nodwyd yn ail ran yr erthygl hon, fe ddychwelodd Mary a William i Brydain yn 1832 yn benodol i ymgyrchu yn erbyn caethwasiaeth. A bu eu hymgyrchu brwd a diflino yn gyfraniad allweddol tuag at gael y Senedd yn San Steffan i basio deddf yn Awst 1833 a fyddai'n dileu caethwasiaeth yn Jamaica.

Bu cerddi gan Morgan John Rhys ac eraill yn bwysig yn y gwaith o ddylanwadu ar y farn gyhoeddus yn ystod yr ymgyrch a arweiniodd at ddileu'r fasnach mewn caethion yn 1807. Bu barddoniaeth yn bwysig hefyd yn yr ymgyrchu diweddarach i ddileu caethwasiaeth yn nhiriogaethau Prydain; ac fe welwn gerddi Cymraeg yn erbyn caethwasiaeth yn ymddangos yn gyson ar dudalennau cylchgronau ac ar daflenni baledi yn y cyfnod hwnnw.

Un o'r rhai mwyaf dylanwadol oedd 'Cân y Negro Bach' gan Benjamin Price (1792–1854), awdur cynhyrchiol iawn a ddefnyddiai'r ffugenw 'Cymro Bach'. Un o Flaenau Gwent ydoedd, ond erbyn cyhoeddi 'Cân y Negro Bach' am y tro cyntaf, yn y cylchgrawn *Greal y Bedyddwyr* yn Rhagfyr 1830, roedd Benjamin Price wedi symud i fod yn weinidog gyda'r Bedyddwyr yn y Drenewydd.

Mae'r gerdd yn enghraifft dda o ba mor ddylanwadol y gall caneuon fod. Pan gyhoeddwyd casgliad o weithiau Benjamin Price yn 1855 o wasg y Bedyddiwr, William Jones (1826–96), yn Heol y Dug, Caerdydd, dywedwyd fod 'Cân y Negro Bach' wedi cael 'effaith mawr ar feddyliau ein cyd-wladwyr, canys yr oedd […] yng nghof ac ar dafod pawb, o'r hen ŵr penllwyd i'r plentyn newydd ddysgu darllen'. Y gân hon, meddid, oedd y peth cyntaf a ddysgai mam i'w phlentyn.


Fel yr awgryma'r teitl, mae 'Cân y Negro Bach' wedi ei gosod yng ngenau caethwas du. Cerdd arall a luniwyd tua'r un adeg, ac a ymddangosodd ar nifer o daflenni baledi yn gynnar yn y 1830au, yw *Hanes, Cyffes, Achwyniad, Anerchiad, a Dymuniad y Negroes*. Caethion du sy'n siarad yn y gerdd hon hefyd ac ynddi, yn ogystal â darlunio'n fyw iawn y driniaeth greulon a ddioddefai'r caethweision ar law eu meistriaid, sonnir yn benodol am y gwrthdaro yn y Caribî rhwng perchnogion y caethweision a'r cenhadon Cristnogol, gan ddiolch fod y cenhadon wedi dod draw i 'sôn am Geidwad a fu farw / dros y negroes du i'w cadw'. (Gellir gweld copi o'r gerdd yn y fan hon: https://archive.org/details/wg35-2-1235.)

Oddi wrth y cyfeiriadau yn y gerdd at garcharu 'ein cenhadon annwyl, hawddgar' a distrywio 'ein capelydd', gellir casglu iddi gael ei llunio rywbryd ar ôl i rai o'r caethion godi mewn terfysg yn Jamaica adeg Nadolig 1831 (a arweiniodd at garcharu William Knibb a rhai o'r cenhadon eraill a dinistrio nifer o'u capeli) a chyn pasio'r ddeddf yn Awst 1833 a fyddai'n rhyddhau'r caethion yno.

Awdur y gerdd oedd Solomon Nutry, 'tad yr hwn oedd gaethwas'. Fe'i ganed ym Mryste yn 1798, ac

roedd yn beiriannydd wrth ei alwedigaeth. Erbyn 1822 roedd yn sir Fôn, oherwydd priododd un Ellen Jones yng Nghaergybi ar 26 Ebrill 1822. Roeddynt yn byw yng Nghaer pan aned eu merch Ruth, 14 Mai 1831. Erbyn 1841 roedd y teulu'n byw yng nghyffiniau Rhuthun, ond wedi symud i Lerpwl erbyn 1851, lle y bu Solomon farw yn 1854.

Cyhoeddwyd baled arall yn ddiweddarach 'yn gosod allan ddiolchgarwch y negroes am eu gwaredigaeth oddi dan iau haearnaidd y gaeth fasnach', a honno wedi ei llunio gan 'Elin, tros Solomon Nutry', sef ei wraig gellid tybio, oherwydd mae tystiolaeth ar gael sy'n awgrymu ei bod hi'n ysgrifennu baledi. Nid yw'n amhosibl, felly, mai ei wraig hefyd a luniodd y faled *Hanes, Cyffes, Achwyniad, Anerchiad, a Dymuniad y Negroes* ar ran Solomon – baled y dadleua Dr Simon Brooks yn ei gyfrol *Hanes Cymry* (2021) fod arwyddocâd arbennig iddi, gan mai dyna o bosibl y 'darn cyntaf o lenyddiaeth yn y Gymraeg gan Gymro du, neu gan rywun […] yn ysgrifennu ar ei ran'.


*Hanes, Cyffes, Achwyniad, Anerchiad, a Dymuniad*

**Y NEGROES,**

**Gan SOLOMON NUTRY,**

(Tad yr hwn oedd Gaethwas.)

"Onid dyma yr ympryd a ddewisais? datod rhwymau anwiredd, tynu ymaith feichiau trymion, a gollwng y rhai gorthrymedig yn rhyddion, a thori o honoch bob iau, onid tori dy fara i'r newynog, a dwyn o honot y crwydriaid i DY? a phan welych noeth, ei ddilladu: ac nad ymguddiech oddiwrth dy gnawd dy hun?" Esay 58. 6, 7.

*Na fydded i neb argraffu y Gân hon heb gena yr Awdwr.*

Ar y Dôn "Anhawdd Ymadael."

BOED clod i'r Iesu yn oes oesoedd,
Sy'n llywodraethu yr holl fydoedd,
Am fod gobaith gael yr awrhon
Ddwyn yn rhydd y Negroes duon.

***Copi Llyfrgell Prifysgol Caerdydd o'r faled gan Solomon Nutry a argraffwyd gan y brodyr Jenkins yng Nghaerdydd.***

Ond beth sydd a wnelo hyn oll â Chaerdydd? Yn Awst 1831 agorodd John a Llewelyn Jenkins (meibion y gweinidog Bedyddiedig, John Jenkins, Hengoed) swyddfa argraffu yn Heol Bute yng Nghaerdydd, swyddfa a symudodd yn 1832 i adeilad a safai ar ochr ogleddol yr Heol y Castell bresennol ond a ddymchwelwyd yn 1877. Byddai'r ddau'n argraffu ar y cyd yno nes i John adael ym mis Medi 1834 i fynd yn genhadwr i Morlaix yn Llydaw, ond rywbryd cyn hynny fe ymddangosodd copi o faled Solomon Nutry, *Hanes, Cyffes, Achwyniad, Anerchiad, a Dymuniad y Negroes*, o wasg y ddau frawd.

Nid yw'n syndod gweld gwasg y brodyr Jenkins yn argraffu'r faled wrthgaethwasol hon. Roedd y ddau frawd hefyd yn gyfrifol o Chwefror 1833 ymlaen am olygu ac argraffu'r cylchgrawn *Greal y Bedyddwyr*, ac fe frithid tudalennau'r cylchgrawn hwnnw â newyddion am genhadaeth y Bedyddwyr yn Jamaica ynghyd ag ymosodiadau llym ar gaethwasiaeth. Rhoddwyd croeso mawr ar ei dudalennau, er enghraifft, i'r newydd fod y mesur i ddileu caethwasiaeth wedi gorffen ei daith trwy Senedd Prydain ym mis Awst 1833; a nododd y cylchgrawn hefyd y ffaith drawiadol i William Wilberforce farw ar 29 Gorffennaf 1833, ychydig ddyddiau yn unig wedi i'r 'fuddugoliaeth ogoneddus' dros ddileu caethwasiaeth gael ei hennill yn Nhŷ'r Cyffredin, ac yntau wedi treulio ei oes hir yn ymladd 'y drwg erchyll a dieflig hwn'.

Heb os, felly, gallwn ddweud ein bod, wrth gerdded ar ochr ogleddol Heol y Castell yng Nghaerdydd, mewn ardal a chanddi le anrhydeddus iawn yn yr ymdrechion i ddileu caethwasiaeth yn Jamaica.

# Rhodio Treftadaeth Yr Eglwys Newydd

**Prosiect Awen**

Cafwyd grant gan CADW/Cronfa Treftadaeth y Loteri i hyrwyddo prosiect er mwyn darganfod hanes pentref Yr Eglwys Newydd.



Dywedodd Nigel Lewis, cadeirydd y prosiect, 'Rydym yn falch i dderbyn y Grant. Byddwn yn ei ddefnyddio i ymchwilio mil o flynyddoedd o hanes y pentref. Ein bwriad yw cyflwyno hanes trwy greu llwybrau treftadaeth o gwmpas yr ardal. Byddwn yn tynnu sylw at ddigwyddiadau a chymeriadau nodweddiadol a chyffredin o'r gorffennol ac o'r presennol.'

Bwriedir gosod placiau rhyngweithiol a chofnodion gweledol megis ffotograffau a phlacardiau ar hyd y llwybrau. Yn ogystal bydd taflenni ar gael a hefyd lyfryn i gynorthwyio'r cerddwyr. Rhan arall o'r prosiect fydd casglu hanes llafar trigolion y pentref am eu profiadau personol o fyw a bod yn yr Eglwys Newydd.

Bydd holl gynnyrch y prosiect yn cael ei storio'n ddigidol a bydd AWEN yn parhau i ychwanegu mwy o drysorau hanesyddol yn y blynyddoedd sydd i ddod.

Rydym yn awyddus i gael eich syniadau – mae gan bawb ran i'w chwarae - dyma'r ffordd i sicrhau llwyddiant y prosiect.

Os oes diddordeb gennych yn y prosiect cysylltwch ag AWEN ar: awen.cymru@gmail.com

*Anthony Evans*

# Gwylio'r Geiniog



## Huw Aled Accountants

1. Tynnodd adroddiad seneddol diweddar sylw unwaith eto at wendidau yn y modd y caiff pensiynau'r wlad eu gweinyddu. Ewch i wefan y Llywodraeth er mwyn gwirio eich cofnod o daliadau Yswiriant Gwladol. Os oes bylchau yn eich cofnod, cysylltwch â'r Swyddfa Yswiriant Gwladol ac efallai y gallwch sicrhau pensiwn uwch. Os ydych eisoes wedi dechrau derbyn eich pensiwn, efallai bod modd i chi hawlio taliad pensiwn ôl-ddyddiedig.
   Llinell gymorth Gymraeg - 0800 731 0453
   Llinell gymorth Saesneg - 0800 731 0175

2. Crynodeb o sgamiau amrywiol rydym wedi'u derbyn y mis hwn:
   - Unigolion yn talu arian ymlaen llaw i brynu car newydd fel Tesla i "werthwr moduron" ac yn colli eu harian.
   - Llythyron a dderbyniwyd gan unigolion oddi wrth "Fanc Tsieineaidd" yn nodi eu bod wedi cael eu holrhain fel unig berthynas rhywun oedd ag enw tebyg ac a fu farw dramor mewn damwain. Mae'r llythyron yn gofyn am fanylion ariannol a "ffi weinyddol".
   - Negeseuon testun gan gwmnïau dosbarthu / heddlu ffug / ceisiadau banc ffug yn gofyn i chi drosglwyddo arian allan o'ch cyfrif banc.
   - Byddwch yn wyliadwrus iawn o fuddsoddiadau sy'n cynnig enillion o, dwedwch, 8%-12%. Mae'r cwmnïau hyn yn aml yn cael eu diddymu a gallech golli rhywfaint (neu'r cyfan) o'r arian a fuddsoddwyd. O gyfieithu yr ymadrodd Saesneg, "os yw'n edrych yn rhy dda i fod yn wir, mae'n debyg ei fod e".

**Cwestiynau Huw ac Aled:** *Dwi wedi darllen ar-lein bod llawer o enwogion wedi lleihau eu treth etifeddiaeth trwy ddefnyddio amryw o gynlluniau. Allwch chi ddweud ychydig wrthyf am y gwahanol opsiynau sydd ar gael? (Y mis diwethaf buom yn trafod Gweithred Amrywio, neu 'Deed of Variation')*

Y mis hwn rydym yn nodi rhai buddsoddiadau a all leihau eich treth etifeddiaeth os bodlonir nifer o amodau:

- Bydd arian a fuddsoddwyd mewn portffolio o "gyfranddaliadau AIM" yn cael ei eithrio rhag treth etifeddiaeth os yw'r cyfranddaliadau'n cael eu cadw am o leiaf 2 flynedd. (Dyma'r cynllun a ddefnyddiwyd gan y buddsoddwr a'r dyn busnes, Jim Slater). Mae risg ynghlwm â'r cynllun yma achos gall prisiau cyfranddaliadau godi a gostwng.
- Os cedwir symiau o fewn cynllun pensiwn, bydd y gronfa yma wedi'i heithrio rhag treth etifeddiaeth ac os yw unigolyn yn marw cyn 75 oed, ni fydd y buddiolwyr ('*beneficiaries*') yn talu treth incwm ar ôl etifeddu'r gronfa chwaith.
- Mae rhyddhad treth etifeddiaeth ar gael i rai ungiolion os ydynt yn berchen ar fusnesau neu ffermydd, yn dibynnu ar eu hamgylchiadau.

*Am fwy o fanylion, cysylltwch gyda ni trwy www.huwaledaccounts.com neu 029 2069 4524*

# Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina

Nos Lun, 21 Chwefror, wedi rhai misoedd heb gyfarfodydd, croesawodd ein cadeirydd Shirley Williams bawb i gyfarfod y Gymdeithas a braf oedd gweld cymaint yn bresennol wedi'r tywydd stormus.

Croesawyd ein siaradwr gwadd am y noson sef Y Prifardd Cyril Jones o Riwbeina. Thema ei sgwrs oedd "Llefydd a'u Lleisiau", ac aeth ymlaen i ddangos lluniau yn ymwneud â'i gerddi. Roedd y rhan fwyaf o'r cerddi yn ymwneud â'i ardal enedigol sef llwybr yr Afon Arth o Aberarth i'r Mynydd Bach.

Cyflwynodd gymeriadau megis yr artist Philip Huckin, David Austen Ystrad Fflur, Mari Berllan Bitar, B T Hopkins,a John Roderick Rees, ynghyd â lleoliadau sy'n bwysig iddo megis Y Lon Lacs, Ystrad Fflur a Rhos Helyg. Cafwyd noson wefreiddiol, noson a oedd yn deilwng o'r cyfle i gyd-gyfarfod unwaith eto.

Diolchodd Dilwyn Jones i'n siaradwr gwadd drwy gyfrwng englyn:

Mae heno yn gymwynas – a hawliaist
    ein sylw â barddas,
Un glew wyt, a'r Blewyn Glas
Ddaw heno i'n Prifddinas.

Atgoffodd ein Cadeirydd ni am ein taith gerdded a'r Te Bach ar Ddydd Gŵyl Dewi, Mawrth y cyntaf. Yn ogystal bydd cyfle hefyd i ddathlu drwy gyfrwng cerddoriaeth pan fydd Beth Semmens yn ein diddanu ar y delyn ddydd Llun, 21 Mawrth.



# Colofn Chwaraeon Hywel Owen




**Y daith i Qatar: gobaith?**

Erbyn diwedd y mis hwn y gobaith yw y bydd Cymru wedi sicrhau ei lle yng Nghwpan y Byd - y tro cyntaf er 1958. Mae hynny'n tanlinellu pwysigrwydd yr hyn sydd o flaen y tîm cenedlaethol yn ystod yr wythnosau nesaf. Yn wir, mae'r cyffro wedi bod yn cynyddu ers gêm gyfartal gampus Cymru yn erbyn Gwlad Belg fis Tachwedd diwethaf. Cynyddodd y cyffro pan dynnwyd yr enwau allan o'r het fis Rhagfyr gyda Chymru i chwarae yn erbyn Awstria (24 Mawrth) ac yna yn erbyn yr Alban neu Wcráin (29 Mawrth) – y ddwy gêm gartre. Er nad oes unrhyw gemau hawdd ar y lefel ryngwladol, gallai Cymru fod wedi wynebu timau llawer anoddach gan gynnwys Portiwgal neu Yr Eidal.

Yn ogystal, rhaid cofio bod Cymru wedi disgleirio yn Stadiwm Dinas Caerdydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac ni ddylid ofni unrhyw dîm. Nid oedd yn syndod felly fod penderfyniad Cymdeithas Bêl Droed Cymru i chwarae'r gêm yn Stadiwm Dinas Caerdydd yn hytrach na'i symud i Stadiwm y Principality wedi derbyn cefnogaeth gwresog gan selogion y Wal Goch. Y prif gŵyn a fu yn ystod yr wythnosau diwethaf oedd y trefniadau i sicrhau tocynnau ar gyfer y gemau gan gynnwys problemau technegol difrifol pan ryddhawyd y tocynnau.

Wrth ystyried gobeithion Cymru, mae nifer o gefnogwyr eisoes yn edrych ymlaen at gêm bosib yn erbyn yr Alban a'r cyfle i ddial am ornestau dadleuol y gorffennol yn Anfield yn 1977 a Chaerdydd yn 1985, wrth i'r Alban ennill yn sgîl penderfyniadau gwarthus gan ddyfarnwyr. Yn ddi-os mae Gymru wedi cael y gorau o'r gornestau diweddar rhwng y ddwy wlad gan ennill pump o'r chwe gêm ddiwethaf. Yr oedd hyn yn cynnwys buddugoliaethau 4-0 yn Stadiwm y Mileniwm gyda Robert Earnshaw yn sgorio *hat-trick a 3-0* yn Stadiwm Dinas Caerdydd.

Mae nifer yn trafod gêm bosib yn erbyn yr Alban ond ni ddylid diystyru Awstria gyda nifer o chwaraewyr disglair yn chwarae ym mhrif gynghreiriau Ewrop, yn enwedig yn y *Bundesliga* yn yr Almaen. Ond rhaid bod yn obeithiol y bydd Cymru yn llwyddo i ennill. Bydd llawer wrth gwrs yn dibynnu ar ffitrwydd nifer o'n prif chwaraewyr. Ergyd amlwg i Gymru fydd absenoldeb y blaenwr Kieffer Moore. Mae ffitrwydd Aaron Ramsey yn parhau'n bryder ac yr oedd nifer yn synnu ei fod wedi symud i *Rangers* ym mis Ionawr o *Juventus.* Yn fwy calonogol mae Gareth Bale wedi dychwelyd i chwarae i *Real Madrid* er mai prin yw ei gyfnodau ar y cae y dyddiau hyn. Y gobaith yw y bydd Ramsey a Bale yn parhau i ddisgleirio i Gymru er prin yn chwarae i'w clybiau. Mae'n parhau'n ddirgelwch pam nad yw Joe Rodon yn cael cyfleodd i chwarae i *Spurs* yn aml er gwaethaf diffygion amddiffynnol y clwb. Mae'n fwy gobeithiol fod nifer o chwaraewyr allweddol Cymru wedi bod yn disgleirio i'w clybiau yn enwedig Daniel James i *Leeds* a Brennan Johnson i *Nottingham Forest*. Braf hefyd yw gweld Connor Roberts yn chwarae'n rheolaidd i *Burnley*.

Felly y gobaith nawr yw y bydd Cymru yn curo Awstria ac yna'r Alban neu Wcráin. Byddai'n dipyn o achlysur petai Cymru yn cyrraedd Cwpan y Byd a llwyddo i wneud hynny wrth guro'r Alban a dial am gemau'r gorffennol. Beth am gic o'r smotyn ddadleuol hwyr a'r tro hwn i Gymru? Yn ddi-os, byddai cyrraedd Cwpan y Byd yn un o'r digwyddiadau pwysicaf yn hanes chwaraeon Cymru. Amser a ddengys.


**Ewyllysiau yn y Gymraeg**

**Ruth C. Jones LL.B.(Hons)**
**ruthcjones25@aol.com**
**07925246199**



**Help Llaw Cymru**

**Gwasanaeth sy'n rhoi cymorth i chi fyw bywyd annibynnol yn eich cartref a'ch cymuned.**
**- Gwaith tŷ ysgafn**
**- Paratoi prydiau syml**
**- Cefnogaeth gydag apwyntiadau iechyd a lles**
**- Cwmni cyfeillgar drwy gyfrwng y Gymraeg**

**Yswiriant Atebolrwydd Personol**
**Gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)**
**Geirda ar gael**

**Cysylltwch â Sian - 07952 730879 / siansullivan24@gmail.com**

# NEWYDDION O'R EGLWYSI

## TABERNACL, YR AIS



*Llun: Urdd.cymru*

Llongyfarchiadau i **Elinor Snowsill** ar gael ei dewis yn un o'r merched arloesol ym myd proffesiynol rygbi i ferched yng Nghymru. Dymunwn yn dda iddi wrth iddi ganolbwyntio ar hyfforddi'n llawn gyda thîm Cymru. Yn yr Hydref bydd Merched Cymru yn cystadlu yng Nghwpan y Byd yn Seland Newydd.

Yn ddiweddar fe fu farw dau o'n haelodau hynaf – **Mair Owen** yn 98 mlwydd oed yng Nghasnewydd a **Ronald (JDR) Thomas** yn 96 mlwydd oed yng Ngresford. Roedd cyfraniad y ddau i'r Tabernacl dros gyfnod hir yn arbennig ac amhrisiadwy. Cydymdeimlwn yn fawr gyda'r ddau deulu yn eu colled.

Daeth aelodau'r **Clwb Darllen** at ei gilydd ddiwedd mis Chwefror. Y llyfr a ddewiswyd y tro hwn oedd 'Y Stori Orau' gan Lleucu Roberts, enillydd Gwobr Daniel Owen.

Cafwyd **Organathon** llewyrchus cyn y gêm ryngwladol rhwng Cymru a'r Alban ac fe godwyd £200. Bydd dau organathon ym mis Mawrth pan fydd Cymru'n chwarae'n erbyn Ffrainc ac wedyn yn erbyn yr Eidal.

Ganol mis Chwefror yng **Nghymdeithas Pnawn Iau**, Shirley-Anne James oedd y siaradwr gwadd. Ei thema oedd olrhain ei bywyd ym myd cerddoriaeth a'i ddylanwad mawr arni. Ymysg ei phrofiadau gorau oedd arwain Côr Eisteddfod ei hysgol pan yn 11 mlwydd oed ac yn ddiweddarach cael ei phenodi'n arweinydd Côr Meibion Caldicot.

Drwy **fis Chwefror** fe gynhaliwyd gwasanaethau bob bore a nos Sul. Mawr yw ein diolch i'r Parchg Hywel Davies Aberdâr, y Parchg Simeon Baker, y Parchg Rosa Hunt, y Parchg John Roberts a Mr Bill Davies am eu gwasanaeth gwerthfawr yn ystod mis Chwefror.

## SALEM, TREGANNA

Mae'n braf iawn gweld aelodau a ffrindiau yn dychwelyd i **Salem** ar gyfer gwasanaethau, a chynifer o weithgareddau yn ailddechrau fel y clwb coffi a'r clwb brecwast.

Mae'r **clwb brecwast** wedi ailddechrau am yn ail fore Mercher i rieni a'u babanod. Brecwast blasus a chwmni difyr! Croeso mawr i rieni a phlantos o dan oed meithrin. Croeso i chi ymuno â ni rhwng 9.45 a 11.15 y bore (2il ac 16eg yn ystod mis Mawrth).

Cydymdeimlwn yn fawr â **Non ac Eurfyl**, wedi i Non golli ei mam yn ddiweddar. Rydym yn meddwl amdanoch yn eich colled.

## EGLWYS Y CRWYS

Wedi pum mlynedd ar hugain wrth y llyw mae **Mr. Bob Roberts** yn gorffen fel ysgrifennydd cyffredinol Eglwys y Crwys. Mae dyled y Crwys yn enfawr i Bob am ei waith diflino dros y blynyddoedd. Gwnaeth y pethau bach a'r pethau mawr, yn driw a ffyddlon ymhob gweithgaredd. Rydym yn dymuno'n dda ac iechyd iddo ef a Margaret i fwynhau mwy o ryddid dros y blynyddoedd nesaf. Dymunwn yn dda hefyd i Thomas Williams fydd yn cymryd at yr awenau fel ysgrifennydd ac i'r Dr Alun Tiplady fydd yn mynd yn gyfrifol am y drysoryddiaeth.

Anfonwn ein dymuniadau gorau at **Mr Gareth Lloyd Jones** sydd yn Ysbyty Llandochau. Gobeithiwn y caiff adferiad llwyr a buan.

Llongyfarchiadau cynhesaf a dymuniadau gorau i **Bethan Evans a Faraz Abulhawa** ar eu priodas yn y Crwys ddiwedd Chwefror. Maent yn ymgartrefu ym Mhenylan.

Rydym yn falch tu hwnt o ddeall bod **Catrin Haf Williams** wedi ei dyrchafu yn Athro yn Adran Ddiwinyddol Prifysgol y Drindod Dewi Sant. Llonyfarchiadau mawr iddi.

Ar y cyntaf a'r trydydd Sul o fis Ebrill bydd y gweinidog yn gwasanaethu yn yr oedfaon. Cawn groesawu yr Athro John Tudno Williams ar 10 Ebrill a Mr Emlyn Davies ar 24 Ebrill. Mae croeso cynnes i bawb i gyd-addoli â ni yn y Crwys.

## BETHEL, PENARTH

Cawsom ein brawychu yn ystod Chwefror wrth glywed am sawl aelod yn cael eu dal yn annisgwyl gan **COVID** – a ninnau'n dechrau gobeithio bod y gelyn yn cilio. Anfonwn ein cyfarchion mwyaf gwresog atynt wrth iddynt ymuno yn y rhestr o gyfeillion sy'n edrych tuag at ddyddiau gwell.

Cydymdeimlwn yn gynnes gyda **Bethan Elfyn** a'i chwaer **Sara** ar farwolaeth eu tad. Dymunwn yn dda i Sara wrth iddi gymryd cyfrifoldeb Arweinydd y Cylch Meithrin sy'n cyfarfod ym Methel. Bydd Sara yn barod iawn ei chroeso i blant newydd.

Ar Sul olaf mis Ionawr cawsom gwmni'r **Parchedig Glyn Tydwal Jones** i arwain ein hoedfa foreol. Dyma'r tro cyntaf ers tro i ni groesawu gweinidog gwadd, oherwydd y cyfyngiadau. Seiliwyd y myfyrdodau ar Eseia 54,2-10 ac Effesiaid 3, 14 – 21 gyda'r emynau (23, 679, 719 a 313) yn adleisio'r genadwri. Roeddem hefyd yn gwerthfawrogi parodrwydd Glyn i arwain yr Epilog ar ZOOM am bump o'r gloch.

Diolch yn fawr i'n **gweinidog** am ei arweiniad ar Suliau Chwefror, yn enwedig am ein herio ar destunau amrywiol, megis, (a) yr alwad i ni fod yn olau yn y byd, (b) cyfamod Duw (taro dêl), (c) gwerth pob unigolyn.

Mae **hysbysfwrdd** wrth fynedfa Bethel. Ein gweinidog sy'n dewis ac yn gosod y negeseuon. Diolchwn iddo am y gwasanaeth tawel, cyson hwn. Mae'r neges bresennol yn ddifyr ac yn heriol. Os hoffech wybod mwy mae gennych ddewis, naill ai mynd am dro i Heol Plessey, sefyll ar y pafin yn ymyl y capel a darllen neu anfon gair at nevillebevans@gmail.com yn mynegi diddordeb neu fe allwch bori yn nhudalennau Agora (Cristnogaeth 21) a chael mwy fyth o drysorau.

## BETHLEHEM, GWAELOD-Y-GARTH

Rwyf yn ysgrifennu'r llith yma ar yr 22ain o fis Chwefror. Neu mewn dull digidol o gyflwyno'r dyddiad:

22022022

Ac fel y gŵyr y mwyafrif ohonoch erbyn hyn mae'n siwr, mae'r rhif digidol yma yn 'balindrôm', sef rhif sy'n darllen yr un peth yn ôl ac ymlaen, ond hefyd mae'n 'ambigram', sef rhif (neu air, neu gynllun) sy'n cyfleu yr un neges o'i droi a'i ben i lawr.

Mae '*a dyma'r addewid diweddar am y da'* yn balindrôm, ac mae ambell fardd, megis y Parchedig Eirian Davies, wedi llwyddo i gyfansoddi cynghanedd balindromig - 'Od nad wyf i fyw dan do' – yn ei gerdd i'r 'Hen Dramp'.

Bydd yn rhaid disgwyl tan 12/12/2121 cyn i'r dyddiad palindromig nesaf ymddangos ar ein calendar (a 03/03/3030 wedi hynny).

Cyfuniad o'r geiriau Groeg *palin* (eto) a *dromos* (ffordd / cyfeiriad) ydi palindrôm. A dyna yn anffodus a ddigwyddodd ar yr 22ain o Chwefror yn Wcráin, gyda milwyr Rwsia yn barod unwaith eto ar eu ffordd i groesi'r ffin a hawlio tiriogaeth gwladwriaeth gyfagos.

Ymddengys bod yr Arlywydd Vladimir Putin a'i ddyhead i greu byd palindromig sydd tu 'nôl y mlaen, byd ambigramig sydd a'i ben i lawr, a hynny yn ôl ei addefiad ei hun er budd heddwch!

Os trown at y Llithiadur ar gyfer darlleniadau'r diwrnod yma, fe'n cyfeirir at Lyfr Iago fel un man i droi ato, ac am adnod broffwydol sy'n cyfleu'n union stad pethau: -

'*Beth sy'n gyfrifol am yr holl frwydro a'r gwrthdaro sy'n eich plith chi? Onid yr ymdrech barhaus i fodloni'r hunan ydy'r drwg*?' [Iago 4: 1]

Oedfaon ac Ysgol Sul:

**Mis Mawrth 2022: (am 10:30 a.m.)**
6 Mawrth – Dathlu Gŵyl Dewi
13 Mawrth – Oedfa - Rhys ab Owen
20 Mawrth – Oedfa - Parchedig Robert Owen Griffiths
27 Mawrth – Oedfa - Parchedig Aled Edwards

## EBENESER




Dathlodd **Alun Tudur**, ein gweinidog, ben-blwydd arbennig ar 16eg o Chwefror pan gyrhaeddodd y garreg filltir arbennig honno o **60 oed**. Diolch i Gill Lewis am baratoi cacennau bach i gael efo paned ar ôl y gwasanaeth fore Sul yr 20fed. Blasus dros ben!

Mae **Canolfan Huggard** yn darparu llety i'r digartref yng Nghaerdydd ac wedi gwneud felly ers dros 30 mlynedd. Maent wedi apelio'n ddiweddar am orchuddion cwrlid a chasys gobennydd, gan fod yna brinder ac angen eu newid yn gyson. Braint i ni yw gallu dechrau cyfrannu i'r achos hwn, gyda llond cist car wedi mynd i'r ganolfan yn Tresillian Terrace eisoes gan aelodau a ffrindiau. Mae mwy wedi'i addo a hyderwn allu parhau â hyn i'r dyfodol. Allwch chi eu helpu? Oes gennych chi ddillad gwely sbâr o ansawdd da y gallwch eu cyfrannu? Cysylltwch â nhw ar 029 20642000 neu ewch i'w gwefan www.huggard.co.uk

Tristwch o'r mwyaf i ni fel teulu Ebeneser oedd colli aelod ffyddlon, **Freda Evans**, ar 20 fed o Chwefror yn 89 mlwydd oed. Pob cydymdeimlad i Catrin ac Eleri, ei merched, a'r teulu estynedig.

Mae **Llanllanast** wedi cyfarfod ddwywaith ar ddechrau'r flwyddyn ac am barhau i gyfarfod ar Sul cyntaf pob mis. Mae criw da o blant a theuluoedd wedi dod at ei gilydd i fwynhau bore o weithgareddau. Hyfryd iawn yw cael croesawu ffrindiau i'r sesiynau ac mae croeso iddyn nhw ddod i'r Ysgol Sul hefyd. Gwerthfawrogwn yn fawr waith tîm Llanllanast sy'n rhoi popeth at ei gilydd yn fisol ac i Huw a Luned Aaron am eu harweiniad arbennig. Mae Lufkin's Coffee, Clare Road, lle mae **Angor** yn cyfarfod bob pythefnos wedi cau, felly mae'n rhaid chwilio am leoliad newydd, ond bydd y cyfarfodydd yn parhau. Am fanylion pellach cysylltwch â gwilym.jeffs1@btinternet.com.

## EGLWYS DEWI SANT

Roedd **tri Sul olaf mis Chwefror** yn dwyn yr enwau – Septwagesima, Secsagesima a Cwincwagesima a hynny'n dynodi'r ffaith bod saith deg, chwe deg a phum deg o ddyddiau tan Ŵyl Fawr y Pasg.

Dydd Sadwrn 19 Chwefror, cafodd y rhai a oedd am ymarfer eu Cymraeg, gyfle unwaith eto i wneud hynny yn rhithiol. Bydd y **Coffi a Chlonc** nesaf am 10:30 fore Sadwrn, 19 Mawrth.

Dathlwyd **Dydd Gŵyl Mabsant Eglwys Dewi Sant** a Dydd Gŵyl Nawdd Sant Cymru ddydd Sul, 27 Chwefror.

Bedyddiwyd **Awen Mair**, merch Branwen a Joe Green a chwaer fach i Seirian ac wyres i Mairlis a Cardi Davies, yn Eglwys Dewi Sant ddydd Sul, 27 Chwefror.

**Dydd Mercher y Lludw** - ar fore Mercher, yr ail o fis Mawrth, cynhaliwyd gwasanaeth o'r Cymun Bendigaid gydag arnodi lludw. Dyma ddiwrnod cyntaf Y Garawys.

Bydd gwasanaeth arbennig am 3:00 y prynhawn ar ddydd Sul, 13 Mawrth o dan ofal yr Esgob yn Eglwys Sant Marc, Gabalfa i sefydlu **Ardal Weinidogaeth Calon y Ddinas** ac i aildrwyddedu'r offeiriaid, y darllenwyr lleyg a'r gweithwyr lleyg a fydd yn gwasanaethu ynddi.

**Gwasanaethau mis Mawrth**

**6 Mawrth : Garawys I**
8:00 yb / 10:30 yb Y Cymun Bendigaid

**13 Mawrth: Garawys II**
10:30 yb Y Cymun Bendigaid
3:00 yh Eglwys St. Marc, Gabalfa

**20 Mawrth : Garawys III**
8:00 yb Y Cymun Bendigaid
10:30 yb Y Foreol Weddi a Phregeth
6:00 yh Y Cymun Bendigaid

**27 Mawrth :**
**Garawys IV (Sul y Fam)**
10:30 yb Gwasanaeth Teuluol
6:00 yh Yr Hwyrol Weddi a Phregeth

O'r Sul cyntaf ym mis Mawrth ymlaen, ni fydd angen ichi roi gwybod i ni o flaen llaw os ydych yn bwriadu dod i'n gwasanaethau ar y Sul.

## EGLWYS GATHOLIG TEILO SANT

Erbyn i ni ddarllen hwn, bydd **Dydd Gŵyl Dewi** wedi cael ei ddathlu gydag Offeren Gymraeg yn nhair esgobaeth Cymru ac yn Llundain. Gweddïwn y bydd ein nawddsant wedi'n clywed ni'n codi'n llais 'Dros Gymru'n gwlad'.

Yma yng Nghaerdydd cynhaliwyd Offeren Dydd Gŵyl Dewi yn Eglwys Teilo Sant ar nos Fawrth, 1 Mawrth. Cawsom gyfle i gofio ein nawddsant Dewi mewn gweddi ac emyn dan arweiniad y Tad Peter Davies.

Yn Esgobaeth Mynyw, cynhaliwyd Offeren yn Eglwys Merthyron Cymru, Penparcau, Aberystwyth ar 28 Chwefror. Yn Wrecsam yr Esgob Edwin Regan oedd yn llywyddu yn y Gadeirlan.

Ac ar Ddydd Gŵyl Dewi yn Eglwys Gadeiriol Westminster cafodd yr Offeren ei dathlu gan y Tad Gildas Parry O.Praem.

Dyma'r **dyddiadau nesaf i'w cofio**:
6 Mawrth, 4 yh: Offeren y we ar Zoom
27 Mawrth, 4 yh: Offeren Eglwys Teilo Sant gyda llif byw ar wefan yr eglwys.
3 Ebrill, 11yb: Offeren ar y we ar Zoom

Cysylltwch â carys@caerdelyn.com i dderbyn y ddolen.

## BETHEL, RHIWBEINA

Yn ystod **mis Chwefror** cawsom gyfle i groesawu'r Parchg Dafydd Andrew Jones, Mr Gwyndaf Roberts a Mr Ion Thomas ac ar 13 Chwefror roedd y gwasanaeth cymun yng ngofal ein gweinidog, y Parchg Evan Morgan.

Yn ddiweddar symudodd un o'n haelodau, **Mrs Olwen Williams** o'r Eglwys Newydd, i Ogledd Lloegr er mwyn bod yn agosach at ei theulu. Rydym yn dymuno'n dda iddi yn ei chartref newydd.

Ar Fawrth y cyntaf fe ymunon ni â **Chymdeithas Gymraeg Rhiwbeina** i ddathlu Gŵyl Dewi. Cynhaliwyd taith gerdded yn ystod y bore a the bach yn y capel. Mae'r Gymdeithas Gymraeg yn cynnal cyfarfod unwaith y mis yn y capel ar drydedd nos Lun y mis.

Cynhaliwyd **Diwrnod Gweddi Byd-Eang** ar 4 Mawrth yn Eglwys y Tabernacl. Rydym yn ddiolchgar i Mair Jenkins a Shirley Williams am fod yn barod i gynrychioli Bethel yn y gwasanaeth hwn.

Nid oes angen cysylltu i gadw sedd yn y capel ar hyn o bryd ac mae croeso cynnes i bawb.

## YR EGLWYS EFENGYLAIDD

Mae'r **Brecwast Merched** yn cyfarfod bob trydydd bore Sadwrn o'r mis am 10.30. Bellach 'rydym wedi ailddechrau cyfarfod yn adeilad yr eglwys yn Harriet Street. Mae'n gyfle braf i gymdeithasu a mwynhau brecwast ysgafn gyda'n gilydd. Y tymor hwn 'rydym yn darllen a thrafod y llyfr *None Like Him* gan Jen Wilkin. Yn y llyfr trafodir deg o briodoleddau Duw a ddylai achosi i ni ei addoli'n fwy. Mae'r llyfr yn heriol ac yn fendithiol.

Roedd yn llawenydd yn y cymun diwethaf dderbyn **Keith a Rhiain Lewis** yn aelodau yn yr eglwys. 'Rydym eisoes wedi elwa o'u cael yn ein plith a dymunwn bob bendith iddynt i'r dyfodol.

**Trafod Cerddi ac Emynau Cristnogol** - ar hyn o bryd yn y sesiynau poblogaidd yma 'rydym yn edrych ar waith Pantycelyn am yn ail â gwaith llenor arall. Yn ddiweddar tynnwyd ein sylwgan Wyn James at dri o emynau Emily Roberts (1919 - 1995). Roedd Emily Roberts yn gweithio i Eglwys Bresbyteraidd Cymru fel un o chwiorydd y bobl a hi oedd yn gyfrifol am y gwaith yn Noddfa, Sgubor Goch, Caernarfon yn y 50au a'r 60au. Bu 'Anti Em' fel 'roedd yn cael ei hadnabod yn gweithio'n ddiwyd yn datblygu'r gwaith yn Noddfa a daeth yn annwyl iawn yng ngolwg y bobl. Braf iawn oedd clywed sawl un yn y sesiwn yn rhannu eu hatgofion personol o'r wraig arbennig yma. Ceir mynegiant o'i ffydd a'i thystiolaeth yn y pennill yma o'i gwaith.

'Wrth ei dderbyn, cefais fywyd
Bery byth, O! gwyn fy myd;
Edrych arno, aros ynddo,
Tystio iddo wnaf o hyd;
Byw i'r Iesu,
A thebygu iddo Ef.'

Cofiwch fod croeso i ymuno â'r sesiynau yma drwy gysylltu â Wyn ar jamesew@caerdydd.ac.uk

Yn ddiweddar yn ein cyfarfod **Paned a Sgwrs** cawsom y pleser o wrando ar **Rhiain Lewis** yn sgwrsio am ei magwraeth ym Mlaenau Ffestiniog ac fel y daeth yn ferch ifanc i gredu yn yr Arglwydd Iesu Grist.

Yn y cyfarfod diwethaf arweiniodd **Lois Adams** drafodaeth ar ein tystio personol gan ein harwain drwy adnodau fyddai'n help ac yn her i ni.

Ar hyn o bryd cynhelir y cyfarfodydd hyn ar Zoom bob bore Mercher am 10.30. Estynnir croeso i chi ymuno â ni.

## Y DIGWYDDIADUR

### Ebrill

**Mercher, 6 Ebrill**
Merched y Wawr, Bro Radur. Noson y Dysgwyr/Siaradwyr Newydd, am 7.30pm trwy gyfrwng Zoom. Croeso cynnes i bawb. Am fanylion pellach, cysylltwch â Gwen Emyr (gwen.emyr@gmail.com; 029-2084-8545) neu Shirley Williams (shirleywilliams642@gmail.com; 029-2061-5243).

**Iau, 7 Ebrill**
Cylch Cinio Merched Caerdydd yng Nghlwb Golff Radur am 7.00pm ar gyfer 7.30pm. Siaradwraig wadd: Y Farwnes Eluned Morgan. Croeso cynnes i bawb. Am fanylion pellach, cysylltwch â'r Llywydd, Rowenna E. Thomas (07811-802845; rowennat@gmail.com).

**Llun, 11 Ebrill**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Sgwrs gan Non Rhys ar y testun 'Natur a Mi', yng nghapel Bethel, Rhiwbina, am 7.30pm. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd, Dilwyn Jones (dilwynjones51@hotmail.com; 029-2062-0653).

**Digwyddiadur mis Mawrth ar dud. 23**

**Anfonwch fanylion ar gyfer y Digwyddiadur at yr Athro E. Wyn James.** **Manylion cysylltu ar dud. 2**

# NEGES O SYDNEY

## Lowri Haf Cooke yn holi Iolo Davies

*Mae Iolo Davies, sy'n 50 oed ac yn wreiddiol o Benylan, yn Athro Mathemateg yn Ysgol Gynradd Coleg Uniongred Groeg Sant Spyrydon yn Sydney. Mae e'n byw yno gyda'i wraig Rhian a'u merch Elsa Gwenllian, sy'n naw oed.*

Shw' mae - chi'n iawn? Falch i weld Cymru yn curo'r Alban bnawn Sadwrn … neu fore Sul fan hyn. Heb golli un gêm fyw mewn saith mlynedd a hanner! Popeth yn iawn gyda ni yn Sydney. Ni 'di prynu tŷ ers y tro dwetha i ni siarad. Wedi symud ymhellach i fyny'r Northern Beaches yn Collaroy Beach – tua 6 milltir o Manly a 12 o'r ddinas. Dihuno am 5.30yb bob bore i nofio yn y môr cyn ysgol. Gwych!



Dw i'n sgrifennu hwn ar ôl penwythnos hyfryd ar fferm wncwl fy ngwraig yng nghanol Milton – tua 4 awr o Sydney. Ardal wledig ac amaethyddol sydd wedi denu llawer o *Sydneysiders* ers dechre'r pandemig. I roi blas i chi, mae gwerth y fferm wedi dwblu yn y ddwy flynedd ddwetha. Mae prisiau tai Sydney, yn enwedig fan hyn ar y Northern Beaches wedi codi yn aruthrol ers 2020 – bron 50% mewn blwyddyn. Mae mwy a mwy o bobol ishe byw ar hyd yr arfordir ond eto'n ddigon agos i allu teithio i ganol y ddinas. Erbyn hyn mae gweithio o adre yn weddol gyffredin. Ma fy ngwraig yn gweithio yn y ddinas dridie'r wythnos a gartre am y deuddydd arall. Mae hi 'di gweld newid sylweddol ar hyd strydoedd a swyddfeydd y ddinas ac yn ôl Rhian, mae'r 'buzz' 'di diflannu.

Mae'r ysgolion 'di ail-agor heb lawer o drafferth ar ôl gwylie'r haf. Ond mae'r amrywiolyn Omicron yn dechre effeithio ar niferoedd y disgyblion yn yr ysgolion. Unwaith mae hanner y dosbarth i ffwrdd yn sâl, mae'r athrawon yn fy ysgol yn darparu gwersi rhithiol i'r plant sydd gartre. Dyw hyn ddim wedi digwydd ers mis Mawrth 2020 a Mai 2021 pan o'n i'n darparu tair awr o wersi bob dydd i'r plant.

Fe gawson ni Covid dros y Nadolig a, diolch byth, cafodd y tri ohonon ni fe ar yr un pryd. Roedden ni'n lwcus iawn i allu hunan-ynysu adre gyda'n gilydd am saith diwrnod. Llawer o baentio yn y tŷ a chyfle hyd yn oed i adeiladu cwrs antur yn yr ardd i Elsa.

Yn sgil Covid 2020 fe ddechreues i ffilmio gwersi Mathemateg i fy nosbarth o'r parc lleol. Creu llunie/diagramau mewn sialc a ffilmio fideo tua 5 munud i gyd-fynd â nhw. Roedd gen i ddilynwyr ffyddlon oedd yn mynd â'u cŵn am dro neu'n mynd mas i loncian yn y parc bob bore. *"What are we learning today sir?"* Fe wnaeth papur lleol ysgrifennu erthygl amdana i hyd yn oed! (https://manlyobserver.com.au/maths-teacher-courts-creative-chalk-at-curly)

Gan ein bod ni'n byw ar y 'Beaches', ni 'di bod yn lwcus iawn yn ystod y ddwy flynedd ddwetha. Mae'r traethau wedi bod ar agor ac mae digon o gyfleoedd i fwynhau'r awyr iach wedi bod. Stori hollol wahanol i'r rheiny sy'n byw yng nghanol y ddinas yn anffodus.

Mae pobl Awstralia yn dueddol o ddilyn y rheolau ac mae'r mwyafrif wedi ufuddhau i argymhellion y llywodraeth. Mae cymaint ohonon ni sydd â theuluoedd a ffrindie adre yng Nghymru a gweddill Ewrop yn gwbod pa mor lwcus ry' ni 'di bod draw fan hyn. Dyw'r gaeaf yn Sydney ddim hanner mor oer ag adre ac rwy'n dal i fynd i nofio yn y môr bob bore cyn ysgol. Dim ond gostwng i dymheredd o 17 gradd wna'r môr yma yn y gaeaf o'i gymharu â 22 gradd yn yr haf.

Nawr bod y llywodraeth wedi codi'r gwaharddiad ar deithio rhyngwladol, ry' ni'n edrych mlaen i weld ffrindie a theulu yn ail-ymweld â Sydney eleni. Mae digon i neud yma cyn i'r tywydd droi yn 'oer' o fis Mehefin i Hydref. Fe fydd y rygbi yn ail ddechre mis Mawrth gyda Chymro a chyn-ddisgybl arall o Ysgol Glantaf, Jamie Roberts yn ymuno â'r New South Wales Warratahs. Fel criw o Gymry Cymraeg, fe fyddwn ni i gyd yn mynd i wylio Jamie yn ei gêm gyntaf yn Sydney.

Mae'r wlad yn agor ei drysau i ymwelwyr cyn bo hir ac fe fyddwn ni'n disgwyl mam Rhian i gyrraedd Sydney o Gymru fis nesaf. Yn union yr un pryd ag y bydda i'n hedfan 'nol i Gaerdydd am bythefnos i ymweld â Mam, Dad a fy mrodyr. Bydda i 'nôl yng Nghaerdydd tra bo fy mam yng nghyfraith yn Sydney - cyd-ddigwyddiad llwyr!




# Adnabod Aelodau
# Côr Meibion Taf

**Yr Athro Aled Rees,**
**Yr Ysgol Feddygaeth,**
**Prifysgol Caerdydd**



**Rho grynodeb i ni o dy gefndir. Beth ddaeth â ti i'r ardal hon?**
Ces fy magu yn Nhrefdraeth. Yn ôl pob sôn ro'dd Dad wedi gorffen adeiladu'r tŷ ddiwrnod neu ddau cyn fy ngeni. Wedi joio rygbi a chanu yn Ysgol 'Abergwein', yn cynnwys rhan Fagin yn Oliver. Cwrs Meddygaeth ar ddiwedd yr 80au. Ro'dd Caerdydd yn ddigon pell i 'adael y nyth' ond yn ddigon agos i fynd gartre pan wedd angen golchi dillad neu *top -up* ar bice bach Mamgu.

**Beth yw dy atgof cynharaf?**
Cwympo mewn i bwll padlo Wdig wrth ymestyn am gwch Batman. Dad we'n gwarchod tra bo Mam yn y siop trin gwallt. Ro'dd tipyn o esbonio 'da fe i wneud wedyn!

**Disgrifia dy hun mewn tri gair.**
Cymdeithasol. Gweithgar. Cystadleuol.

**Beth yw dy hoff le di yng Nghymru / yn y byd?**
Ishte uwch 'Y Cwm' yn Nhrefdraeth wrth edrych nôl am y dre' gyda'r llanw i fewn. Nofio draw i Tra'th Mowr a nôl i glirio'r pen. Y Byd: Unrhyw le yn yr Alpau gyda digon o eira.

Oes **gennyt ti unrhyw arferion drwg?**
Gormod … a dwi ddim yn barod i'w trafod yn gyhoeddus. (Gol: hynny yw, nagoes!)

**Beth sydd wir yn dân ar dy groen di?**
Pobl ddioglyd. Pobl drahaus.

**Beth am rannu rhywbeth gyda ni nad oes llawer o bobl yn ei wybod?**
Mae gen i linc genetig trwy ochr Dad â Thomas Jefferson (Trydydd Arlywydd yr Unol Daleithiau).

**Pwy yw'r person mwyaf nodedig gwrddest ti erioed?**
Beti George – pwy arall? *(Gol: heb wrando ar Aled ar Beti a'i Phobol? Dyma'r ddolen: https://www.bbc.co.uk/programmes/m000f6py)*
Nes i ishte tu ôl i Cliff Richard ar awyren unwaith – ydy hynny'n cyfri?

**Beth fyddai dy bryd o fwyd delfrydol? Gyda phwy byddet ti'n hoffi rhannu'r pryd hwn?**
Bwyd y môr, neu stêc a sglodion am y prif gwrs. Crymbl mwyar Mam i ddilyn. Potel (neu ddwy) o win gwin (Sauvignon o Seland Newydd falle) i iro'r llwnc. Yn hapus i gael cwmni'r ail denoriaid (a falle un neu ddau o'r baritôns os 'yn nhw'n addo bihafio).

**Pan nad wyt ti'n dysgu repertoire CMT sut wyt ti'n mwynhau treulio dy amser hamdden?**
Dwi'n dwli dilyn pob math o chwaraeon. Dwi'n mwynhau gwylio rygbi wrth gwrs, p'un ai tîm Ieuenctid St Peters, Academi Glantaf, Rygbi Caerdydd neu Cymru ac yn ffan mowr o wyliau eirfyrddio. Ma'r olygfa o'r wythfed green yng nghlwb golf Trefdraeth yn sicrhau bod y clybs yn dod mas o'r garej ddwywaith y flwyddyn o leia. Dwi wedi addo gwneud ymdrech i wella'r handicap pan fydda i'n ymddeol. Tan hynny, y ci (Gwil) sy'n cael y sylw i gyd.

**Yn ystod y cyfnod clo pa raglenni teledu wyt ti wedi mwynhau eu gwylio?**
Twin. Mortimer & Whitehouse: Gone Fishing. Super Rugby Aotearoa.

**Beth yw dy hoff lyfr? Pwy yw dy hoff awdur?**
Dim un llyfr yn benodol ond yn ddiweddar fe wnes i fwynhau *Shuggie Bain* gan Douglas Stuart a *The Thursday Murder Club* gan Richard Osman (gyda gweddill y wlad mae'n debyg!).

**Pa un darn o gerddoriaeth byddet ti'n ei ddewis i wrando arno ar ynys bellennig?**
Rhywbeth gan 'Dire Straits' wrth gwrs! Neu, os yw pethe'n gwaethygu, 'Requiem' Mozart!

**Pan fydd y cyfnod 'cofid' drosodd beth wyt ti'n edrych ymlaen at ei wneud fwyaf?**
Trafaelu, trafaelu, trafaelu.

*****************

Mae'r côr wedi ymgartrefu bellach yng Nghlwb Rygbi Llandaf ar Rodfa'r Gorllewin. Rydym yn cwrdd am 7:30 bob nos Sul. Mae'r ymarfer yn gorffen am 9:00 ond mae'r cymdeithasu yn parhau mewn awyrgylch cartrefol braf wedi hynny!

Mae calendr 2022 yn llenwi'n gyflym. Rydym wastad yn brysur yn ystod y 'Chwe Gwlad' ac fe ddaw'r haf a 'Steddfod Tregaron cyn i ni sylweddoli. Mae croeso i aelodau hen a newydd ymuno â ni yn ein hymarferion pan gawn gyfle i atgoffa'n hunain o'r hen ffefrynnau a chael blas ar ddysgu darnau newydd.

Cysylltwch â Rhodri Jones 07770 559961 (Cadeirydd) neu Colin Williams 07768 900738 (Ysgrifennydd)
11 Mawrth 2022 - Nos Wener y gêm rhwng Cymru a Ffrainc: canu mewn digwyddiad yng Ngwesty'r Marriott cyn y gêm.
19 Mawrth 2022 - Diwrnod y gêm rhwng Cymru a'r Eidal: canu yng Ngwesty Jurys (Park Place) mewn digwyddiad cyn y gêm
30 Gorffennaf – 6ed Awst 2022 Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion – Tregaron
Y 6 Gwlad 2023 Taith i'r Alban
https://cormeibiontaf.cymru

## Tanysgrifio i'r *Dinesydd* 2022 - 2023

Mae'n siwr eich bod wedi sylwi bod y ffurflen danysgrifio flynyddol wedi'i chynnwys gyda'r rhifyn hwn o'r *Dinesydd*. Os ydych yn tanysgrifio'n flynyddol cofiwch lenwi'r ffurflen a'i dychwelyd. Os oes gennych archeb sefydlog gyda'ch banc cofiwch wirio bod y swm cywir yn cael ei dynnu allan o'ch cyfrif. Diolch yn fawr iawn i bob un ohonoch sy'n cefnogi'r *Dinesydd.*

## Tlodi yn y Ddinas – Banc Bwyd Newydd

Mae Manda Payne yn rhedeg *Feed a Family*, banc bwyd annibynnol sy'n cefnogi pobl Caerdydd a'r Fro. Ers i'r banc agor flwyddyn yn ôl, mae hi wedi bod yn apelio am roddion ac yn cydlynu, creu a dosbarthu parseli bwyd. Tan yn ddiweddar, bu'n ysgwyddo'r costau dosbarthu i gyd ei hunan, ac weithiau yn cyfrannu at brynu bwyd os oedd angen. Yn ddiweddar mae wedi gweld cynnydd enfawr yn y nifer o bobl sydd angen cymorth.

"Rhoi'r gwres mlaen neu fwyta. Dwi'n clywed hynny drwy'r amser" dywedodd. Dywed ei bod yn dod ar draws pobl nad ydynt wedi bwyta mewn dau neu hyd yn oed dri diwrnod. "Mae'r rhain yn bobl sydd mewn sefyllfa enbyd" meddai.

Yn wahanol i'r prif fanc bwyd yng Nghaerdydd, gellir cysylltu'n uniongyrchol â *Feed a Family* i ofyn am help. Nid oes angen i ddefnyddwyr gael eu cyfeirio gan yr awdurdodau ac nid yw Manda'n gosod meini prawf ar gyfer pwy sy'n gymwys i dderbyn cymorth. Yn ôl Manda, mae pobl yn teimlo digon o gywilydd ynghylch eu sefyllfa heb orfod wynebu cwestiynau personol manwl am eu sefyllfa ariannol. Ac mi ddylai hi wybod: bu'n rhaid i Manda ei hunan ddefnyddio banc bwyd yn y gorffennol a dywed bod y cwestiynau personol roedd yn rhaid iddi hi eu hateb yn "gwneud ichi deimlo fel *scrounger*".



Mae pob math o bobl yn gofyn am help. Mae nifer wedi colli swyddi yn sgîl y pandemig ac nawr yn derbyn budd-dâl. Mae oedi gyda phrosesu ceisiadau Credyd Cynhwysol yn golygu bod rhai yn methu â dygymod yn y cyfamser. Fodd bynnag, mae nifer fawr o bobl sy'n cysylltu â *Feed a Family* yn gweithio'n llawn amser ond yn derbyn cyflogau isel. Gall y ffaith eu bod mewn gwaith olygu nad ydynt yn gymwys i dderbyn talebau bwyd ar gyfer y prif fanc bwyd.

Gyda biliau trydan, nwy a dŵr yn ogystal â phrisiau bwyd yn codi, cynyddu fydd y galw am fanc bwyd *Feed a Family* dros y misoedd sydd i ddod. I gwrdd â'r galw mae *Feed a Family* wedi cael caniatâd i ddefnyddio ystafell yng Nghanolfan Gymunedol Gabalfa er mwyn storio bwyd, gan gynnwys oergell ar gyfer llaeth.

Os hoffech chi helpu, mae banc bwyd *Feed a Family* yn derbyn rhoddion o fwyd ffres, tuniau a phacedi. Gallwch gysylltu â Manda ar 07393642142. Os hoffech wneud cyfraniad ariannol gallwch fynd ar dudalen Facebook *Feed a Family* lle mae dolen i dudalen *Just Giving*.

## Emyn i Gymru Dechrau Canu Dechrau Canmol

Un o hoelion wyth tîm Y Dinesydd, Eirian Dafydd, yw enillydd cystadleuaeth cyfansoddi geiriau emyn **Dechrau Canu Dechrau Canmol**. Daeth 60 ymgais i law ar gyfer y gystadleuaeth i ddathlu pen-blwydd cyfres boblogaidd S4C yn 60 oed. Y beirniaid oedd John Gwilym Jones a Catrin Alun.

Dywedodd John Gwilym Jones fod gwaith Eirian yn sefyll allan. 'Mae'r emyn yn sôn am deimlo'r llaw, y llaw sy'n iacháu, wel mae rhywbeth fel 'na yn gafael ar unwaith yn enwedig yng nghyfnod y pandemig.' Yn ôl Catrin Alun roedd y geiriau buddugol 'wedi fy stopio i yn fy nhracs'. Aeth ymlaen i ddweud bod 'y mesur yn wahanol iawn ac ar y dechrau doeddwn i ddim yn siŵr os oedd hynny'n broblem, ond na, dwi'n meddwl fod hynna'n fanteisiol achos bydd rhaid cael tôn newydd.'

Dyma oedd gan Eirian i'w ddweud am ei gwaith: 'Ro'n i yn ymwybodol bod nifer o eglwysi wedi cau dros gyfnod y pandemig, mae yna aelodau wedi encilio i ffwrdd a'r syniad o ddod yn ôl oedd gen i ddechrau … I fi, roedd hynna yn ffitio i mewn gyda dameg y Mab Afradlon – rhywun yn encilio, ond yn dod yn ôl … Mae yna hefyd brofiad personol yn rhan o'r ail bennill – pan o'n i'n iau fel wnes i dreulio sawl cyfnod yn yr ysbyty ac yn ystod y cyfnod yna fe es i i oedfa gyda'r weinidogaeth iachau … A dyna sydd tu cefn i'r geiriau.'

Mae **Dechrau Canu Dechrau Canmol** nawr wedi cyhoeddi cystadleuaeth newydd i gyfansoddi emyn dôn i gyd-fynd â geiriau Eirian. Bydd gwobr o £200 i'r enillydd a'r gobaith yw y bydd y cyfanwaith newydd yn cael ei berfformio ar **Dechrau Canu Dechrau Canmol** cyn diwedd y gyfres.

Y dyddiad cau yw Ebrill 29, ac mae'r holl fanylion ar wefan S4C (www.s4c.cymru)



**Gweddi'r Pererin**

Fy Nuw, fy Nhad, pan giliaf i'r cysgodion
yn wan fy ffydd, yn blentyn tlawd afradlon,
cyfeiria fi at loches y fforddolion
lle byddi di, yn disgwyl im nesáu.

Ac wrth nesáu, rhof heibio fy ffolineb
wrth geisio'r ffordd i fywyd o ffyddlondeb;
trwy niwl fy myd, synhwyro'th bresenoldeb
a theimlo'r llaw, sy'n estyn i'm hiacháu.

A thrwy'r iacháu, daw cyffro dy gyffyrddiad
yn brofiad byw, yn gyfrwng fy adfywiad;
er gwendid ffydd, o obaith daw arddeliad
a'th gariad di yn foddion i'w gryfhau.

Ar ôl cryfhau a'm derbyn yn etifedd
o fewn dy byrth, caf brofi o'th ddigonedd;
rhyfeddu wnaf, O Dad, at dy drugaredd
gan aros byth, i'th foli a'th fwynhau.

*Eirian Dafydd*

# Pobol y Rhigwm

Ar ôl cyfyngu'r rhigymwyr i fesur y limrig y tro diwetha, sy wedi'i deilwra (neu ei fabwysiadu, o leia) at ddibenion digrifwch, ro'dd mesur y triban yn cynnig y cyfle i ddwysáu a myfyrio. Yn y pen draw, o'r pedwar triban a ddaeth ataf trwy law'r Dinesydd, ro'dd pob cynnig namyn un yn ysgafn, gydag un yn benodol â'i wreiddiau'n gadarn ym mhridd doniolwch. Ni waeth am hynny. Does dim rheol yn y byd sy'n mynnu bod triban yn ddifrifol (run peth â'r englyn, mewn gwirionedd, gyda'r englyn ysgafn wedi hen ennill ei blwy mewn rhestri testunau erbyn hyn, a chystadleuaeth *Pobol y Rhigwm* mis Ebrill 2022, digwydd bod!).

Dau faen prawf oedd gen i mewn meddwl cyn ymhél â'r dasg y mis hwn: Yn gynta, mai triban, a thriban yn unig fyddai gan bob cystadleuydd (hynny yw pennill pedair llinell, gyda llinellau 1, 2 a 4 yn seithsill ac yn odli â'i gilydd, a llinell 3 yn wythsill ac yn ffurfio odl fewnol gyda dechrau'r llinell glo). Yn ail, bod y tribannau eu hunain yn *gynnil*. Cefais siom yr ochor orau yn achos y pedwar triban a ddaeth i law, gyda phob cynnig yn bodloni'r meini prawf yn gyffyrddus. Mae'n deg dweud, felly – er bod nifer y cynigion yn fach – mai cystadleuaeth o safon oedd hon. Mewn gornest wannach fe fyddai unrhyw un o'r pedwar triban wedi gallu cario'r dydd ond dyletswydd beirniad, wrth gwrs, yw pennu buddugwr! Dyma nhw'r pedwar, felly, yn nhrefn eu teilyngdod (gyda llai na thrwch blewyn chwannen rhyngddyn nhw) gan bwysleisio mai chwaeth y beirniad oedd y prif benderfynydd.

Rwy'n gosod *Ap Pivac* a *Hiraethus* yn gydradd drydydd. Mae'r ddau wedi camu i'r un tir, neu'r un *cae* yn benodol, sef y cae rygbi. Mân-fawlganeuon yw'r rhain i chwaraewyr rygbi'r gorffennol a'r presennol fel ei gilydd, sef Dewi Bebb yr asgellwr a Dewi Lake, bachwr Cymru a'r Gweilch. Fe sylwch chi mai 'Dewi' ac nid 'Dewi Sant' oedd y testun a osodwyd ac rwy'n edmygu ffraethineb y ddau ymgeisydd yn fawr yn hynny o beth! Efallai y dylai'r beirniad ddatgan mai boi ffwtbol yw e i'r carn ac nad yw'r bêl hirgron yn tueddu i hawlio ei sylw oddi allan i achlysur Pencampwriaeth y Chwe Gwlad. Nid bod hynny'n ffactor, wrth gwrs, dim ond dweud! Na, yr un peth sy'n dal y ddau gystadleuydd yn ôl (ac mae'n rhaid hollti'r blew chwannen mewn cystadleuaeth mor agos) yw'r mynegiant mymryn yn herciog yn y ddau driban a hynny er mwyn ceisio bodloni'r gofyniad o ran y sillafau, dybiwn i. Yn benodol, mae'r 'ond' ar ddechrau llinell 3 yn nhriban *Ap Pivac* ac ''r asgellwr' yn llinell glo *Hiraethus* yn gosod arlliw o straen ar y rhythm. Fodd bynnag, manion yw'r rheini gan bedant mydryddol, wrth unrhyw linyn mesur mae'r ddau'n driban o safon ac yn haeddu gweld golau dydd ar dudalennau'r *Dinesydd*:

Ein Dewi Sant fu unwaith
Yn symbol gwiw o'n gobaith
Ond nawr mae ffydd pob Cymro balch
Mewn Gwalch i goncro eilwaith.

**Ap Pivac**

Wel, dyma beth oedd arwr,
Gwir sant i'w gyd- wlatgarwr.
Uwchben pawb arall, mwy na heb,
Oedd Dewi Bebb, 'r asgellwr.

**Hiraethus**

Cafwyd triban doniol gan *Cydymdeimlwr*, gyda chlo clyfar. Does dim angen ei esbonio (ac mae hynny'n rhinwedd gadarnhaol, gyda llaw), fe wna i adael i chi ddarllen y triban dros eich hunain. Yr hyn sy'n rhaid dweud yw bod yma fydryddwr medrus sy'n gallu cyfleu sgwrs yn gwbwl naturiol mewn pennill, ac mae hynny'n gamp. I'r rheini ohonoch chi sy'n cwestiynu a yw'r nifer cywir o sillafau yn y drydedd linell, gyda llaw, mae'r 'â' yn glynu wrth 'beidio' ac felly'n *cywasgu*, i ddefnyddio'r term technegol (hynny yw mae'r glust yn clywed wyth sill yn naturiol)! Llongyfarchiade i *Cydymdeimlwr* am driban crwn a gwreiddiol, yr unig beth sy'n ei gadw o frig y podiwm y tro hwn yw bod y triban buddugol wedi gafel yndda i ychydig yn fwy.

Daeth eto y difenwi:
Rhyw glown gam-dd'wedodd 'Dewi'.
"Sut lwyddaist beidio â cherdded bant?"
"Amynedd sant sydd gen i."

**Cydymdeimlwr**

Mae triban *Edmygydd* yn gwbwl orffenedig, yn llifo'n esmwyth ac, yn anad dim, yn rhyfeddol o *gynnil*. Dyna sy eisie mewn mesur pedair llinell – mynegiant cryno, sy'n sbarduno delwedd neu ymdeimlad yn y darllenydd, hynny yw jyst dweud digon. 'Y dwedyd llai sy'n gwneud llên', chwedl Ceri Wyn Jones. Fe fydda i'n annog aelodau o'm dosbarth cynganeddu i ddefnyddio'r dechneg o gyferbynnu rhwng y paladr a'r esgyll yn eu henglynion ac mae'r dechneg honno wedi gweithio i'r dim yn nhriban *Edmygydd*. Mae'r petruster a gyfleir yn y ddwy linell gynta'n cyferbynnu'n drawiadol â hanfod cadarnhaol dysgeidiaeth seml Dewi Sant yn y ddwy linell glo, ac mae'r cyferbyniad hwnnw fel petai wedi'i fynegi'n ddiymdrech (ac onid dyna'r grefft?). Mae 'na adlais effeithiol o gynnil o emyn diamser Lewis Valentine yn y drydedd linell hefyd, sy'n ategu'r thema. Gyda llaw, fe fydde 'dros Gymru gweddi Dewi'*n dyst*' wedi bod yn llinell o gynghanedd Sain! Dim bod angen cynghanedd mewn gwirionedd – wna i ddim traethu rhagor, dim ond diolch i *Edmygydd* am gynnal traddodiad hirhoedlog y triban â graen ac am barchu'r mesur. Mewn oes pan fo Dydd Gŵyl Dewi'n gallu bod yn haniaeth, mae triban *Edmygydd* yn ein hatgoffa am un o agweddau creiddiol y Nawddsant a gofiwn ar Fawrth y cynta. Llongyfarchiade mawr i *Edmygydd*.

Tybiedig ydy'r gwyrthiau,
A bach yr anogaethau:
Dros Gymru gweddi Dewi'r tyst
Oedd Crist yn ein calonnau.

**Edmygydd**

**Enillydd tasg Chwefror yw**
## Phil Ellis, Penylan


**Ar gyfer mis Ebrill:**
**Englyn ysgafn** neu **bennill ysgafn heb fod dros bedair llinell: Yr Ŵy Pasg**


(Er tegwch i'r englynwyr caiff unrhyw bennill sy dros bedair llinell ei ddiarddel o'r gystadleuaeth!)

*Aron Pritchard*

Anfonwch eich cynigion erbyn 20 Chwefror, 2022 at: eirianagwilym@gmail.com Gwobr: Tocyn llyfr £10.

## Rhif: 221




### Ar Draws

6. Adio tad i'r ychwanegiad (7)
7. Lle i un llaw Megan (5)
9. Lle i eistedd pan ddychwel yr heulwen (3)
10. Darn o goed i wneud pethau pigog (9)
12. '----- ----- ----- o'r nef a ddaeth i lawr,
    I geisio'i braidd trwy'r erchyll anial mawr' (DC) (1,6,4)
15. 'Mawr yw Iesu yn ei berson,
    ----- ----- -----, ----- mawr fel dyn'(TL) (4,3,3,1)
17. '-----, mae dwylo – Duw ei hun
    Danaf ymhob cyffro' (BB) (9)
19. Gŵr yn dechrau darllen ysgrifau newydd (3)
21. I bob golwg mae'n amser tywyll (5)
22. 'Cans o'th law y daw bob dydd
    Ein lluniaeth a'n -----' (WDW) (7)

### I Lawr

1. Troi'r teras yn risiau (5)
2. Bwrw eira ar yn ail yn y coed pîn (3)
3. Cyfyngu'r camhyder i'r castell (4)
4. 'Tydi yn unig fedd yr hawl,
    Ac ni chaiff arall ----- ----- -----' (cyf JRJ) (3,1'1,4)
5. Pan elo dyn wedi dim i'w lawn dwf (7)
8. Un o Persia gynt cyn Hydref yn magu calon bradwr (6)
11. Lle i weld tonnau gwyllt y môr (9)
13. Wele, rhwng ffiniau gwybod, mae canfod (6)
14. Cân y mynach (7)
16. Mae'n gymhleth ym myd yr ysgol (5)
18. Torth yn codi'n llawen (4)
20. Tynnu'r afr o'r afon oedrannus (3)

### Enillydd Croesair Rhif 219

Julie Loxley ac Andrew Wood, Caerloyw

### Atebion Croesair Rhif 219

**Ar Draws:** 1. Anhyblyg 5. Anna 9. Budr 10. Adfywiad 11. Addasu 12. Wŷl 13. Iôn 14. Tua Bethlem dref 19.Y tair arth 20. Amen 21. Ira 22, Tre 23. Stoic 24. Iesu 25. Cysgodle

**I Lawr:** 2. Neuaddau 3. Y preseb 4. Yn dawel ar wely 6. Neithiwr 7. Amdanaf 8. Cyflym 14. Trybini 15. Afalans 16. Effrata 17. Drachtio 18. Eseciel

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams
erbyn 5 Ebrill, 2022
22 Heol Cae Rhys, Rhiwbeina, Caerdydd, CF14 6AN
Gwobr: Tocyn llyfr £10

## Y DIGWYDDIADUR

### Mawrth

**Iau, 10 Mawrth**
Cylch Cadwgan. Sgwrs gan yr Athro Gerwyn Wiliams ar y testun 'Delweddau o Cynan'. Am 7.30pm trwy gyfrwng Zoom. Trefnir y cyfarfod gan Gymdeithas Gymraeg Llantrisant. Am fanylion pellach, cysylltwch â'r Ysgrifennydd, y Prifardd Glenys M. Roberts (groberts@btinternet.com).

**Gwener, 11 Mawrth**
Cymrodorion Caerdydd. Sgwrs gan Dr Gwenllian Lansdown Davies ar y testun 'Cylch o Hanner Canrif: Meithrin Miliwn'. Am 7.30pm trwy gyfrwng Zoom. Croeso cynnes i bawb. Am fanylion pellach, cysylltwch â'r Ysgrifennydd, Gwynn Matthews (m.g.derwendeg@gmail.com).

**Sadwrn, 12 Mawrth; Llun, 14 Mawrth–Sadwrn, 19 Mawrth**
Bydd Theatr Genedlaethol Cymru, National Theatre Wales ac August 012 yn cyflwyno perfformiad o *Petula*, addasiad amlieithog Daf James o ddrama Fabrice Melquiot, *Wanted Petula*, yn Theatr Sherman am 7.30pm: https://www.petula.cymru/

**Gwener, 11 Mawrth**
Organathon yn y Tabernacl ar yr Ais rhwng 2.00 a 5.00 o'r gloch.

**Gwener, 18 Mawrth**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. Sgwrs gan Dr Siwan Rosser ar y testun 'Darllen y Dychymyg', sef teitl ei chyfrol ddiweddar ar lenyddiaeth Gymraeg i blant a gyrhaeddodd restr fer Llyfr y Flwyddyn 2021. Am 7.00pm trwy gyfrwng Zoom. Croeso cynnes i bawb. Am fanylion pellach a'r ddolen Zoom, cysylltwch â'r Athro E. Wyn James (JamesEW@caerdydd.ac.uk).

**Sadwrn, 19 Mawrth**
Organathon yn y Tabernacl ar yr Ais rhwng 10.30 a 1.30 o'r gloch.

**Llun, 21 Mawrth**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Dathlu Gŵyl Ddewi gyda'r delynores Beth Semmens, yng nghapel Bethel, Rhiwbina, am 7.30pm. Gan fod cyfyngiadau ar y nifer all fynychu ein dathliad, a fyddech gystal â sicrhau eich sedd ymlaen llaw drwy gysylltu â'r Cadeirydd, Shirley Williams (Shirleywilliams642@gmail.com; 029-2061-5243).

**Sadwrn, 26 Mawrth**
Datganiad Organ gan Jeff Howard yn y Tabernacl ar yr Ais am 12.30pm.

**Mercher, 30 Mawrth–Sul, 10 Ebrill**
'Anthem': comedi gerddorol Gymraeg newydd gan Llinos Mai yn Stiwdio Weston, Canolfan Mileniwm Cymru. Manylion pellach: https://www.wmc.org.uk/cy/digwyddiadur/2022/anthem

**Anfonwch fanylion ar gyfer y Digwyddiadur at yr Athro E. Wyn James. Manylion cysylltu ar dud. 2**

# Eisteddfod Gadeiriol Caerdydd 2022

Yn gyntaf oll diolch i bawb wnaeth gystadlu yn y cystadlaethau gwaith cartref yn eisteddfod 2022. Roedd hi'n bleser gweld y ceisiadau i gyd yn cyrraedd o bob cwr o Gymru a thu hwnt!

Siom enfawr i ni fel pwyllgor oedd gorfod gohirio'r eisteddfod am flwyddyn arall, a mynd ati unwaith eto i baratoi eisteddfod rithiol. Roedden ni mor agos i allu cynnal eisteddfod. Ond hyd yn oed cyn y cyhoeddiad swyddogol, roedd hi'n dod yn fwyfwy amlwg nad oedd hi'n iawn i gynnal eisteddfod mewn cyfnod lle'r oedd achosion o COVID-19 wedi dechrau codi'n sylweddol. Trueni mawr na chawsom ni wledd o ganu, llefaru, actio, dawnsio a chymdeithasu fis Ionawr ym Mhlasmawr. Ond ry'n ni'n hyderus a gobeithiol y bydd modd i ni gwrdd yn 2023.

Yn ôl at y cystadlu. Cafwyd teilyngdod ym mhob un o'r cystadlaethau lle bu cystadlu, unwaith eto. Mae'n dyled a'n diolch yn fawr i'n beirniaid am eu gwaith, ac am wneud yn fwy na'r disgwyl hefyd, drwy ffilmio rhai beirniadaethau. Diolch i Eurig Salisbury, Aneirin Karadog, Betsan Evans, Gareth Hughes, Geraint Lewis a Manon Steffan Ros. Mae'r holl ganlyniadau i'w cael ar wefan yr eisteddfod: www.esiteddfodcaerdydd.cymru.

Fe benderfynom ni ffilmio'r tair prif seremoni yn festri capel Salem, er mwyn rhoi'r 'clod, y mawl, y parch a'r bri' haeddiannol i'r enillwyr. Llongyfarchiadau gwresog i Martin Huws ddaeth i'r brig nid yn unig yng nghystadleuaeth y gadair ond y fedal ryddiaith hefyd. Llongyfarchiadau mawr i Gruffudd Gwynn am ennill tlws yr ifanc. Mae modd gwylio'r seremonïau ar ein sianel YouTube (chwiliwch am Eisteddfod Caerdydd, neu mae dolen ar ein gwefan). Mae'n diolch hefyd yn fawr i R Alun Evans am arwain y seremonïau yn ei arddull urddasol arferol.

Mae angen diolch i bob aelod o'r pwyllgor a weithiodd drwy gyfnod anodd 2020 a 2021 i baratoi dwy eisteddfod rithiol. Roedd hi'n anodd dygymod â'r siom o beidio â chael eisteddfod 'go-iawn' yn 2022, ond trwy gyd-dynnu a defnyddio rhwydwaith o gysylltiadau ledled y ddinas, ry'n ni'n falch o'r hyn y llwyddwyd i'w greu. Mae'r eisteddfod yn mynd o nerth i nerth bob blwyddyn, er gwaetha'r pandemig. Mae'r brwdfrydedd yno ymysg ein dinasyddion i barhau i gynnal eisteddfod leol. Os hoffech chi ymuno â ni ar y pwyllgor, anfonwch e-bost at cyswllt@eisteddfodcaerdydd.cymru, neu siaradwch â ni ar y cyfryngau cymdeithasol. Ymlaen at 2023!

*Sioned Wyn*
*(Cadeirydd yr Eisteddfod)*

# Darganfod Gogledd Caerdydd

Ychydig wyddwn i am Ogledd Caerdydd cyn y pandemig. Wedi'r cwbl, roedd fy llwybr beicio ar hyd y Taf yn fy arwain i Dreganna a chanol y dre. Fanno oedd y swyddfa, y theatr a'r sinema, y tai potas a becws Brød. Dim byd yn erbyn stryd fawr ardderchog y 'Pentre' , ond tu draw oedd hyd a lled fy myd gwaith a chymdeithasol. A chyda phobman ar gau a phobl yn gyndyn o gwrdd, bu'n rhaid dibynnu ar lwybrau natur a hen ddiwydiant am ddihangfa. Yn raddol, mi ddois i'n dra chyfarwydd â'r ardal ddiarth honno gyferbyn â'r fflat a mentro ymhellach na'r garej Tesco a'r lle carferi cinio Sul. Sôn am berlau! Daeth Parc Caedelyn yn fan cychwyn hyfryd a hwylus i Riwbeina. Treuliais oriau bwygilydd yn crwydro'r ardd-bentref enwog â'i henwau strydoedd uniaith Gymraeg fu'n gartref i frenhines ein llên, Kate Roberts, rhwng 1929 a 1931. O Ben-y-dre wedyn, profiad od o ddilyn y llwybr cyhoeddus trwy ganol twmpathau gleision clwb golff yr Eglwys Newydd (sefydlwyd 1914), osgoi'r peli a'r siwmperi tsiec, a rhyfeddu o bell at nendyrau a chraeniau canol y ddinas. Yna, cymryd y llwybr drain a mieri am 'Rhiwbina Hill' a Heol y Wenallt tua'r goedwig, cyn troi rownd a mwynhau golygfa 'sblennydd arall. Gyda thai a cheir o boptu'r allt yn y blaendir, a'r Stadiwm, y Bae a phentir Penarth ar y gorwel, roedd hi bron yn San Fransiscaidd o bert.




Bellach, dwi wedi symud i Radur ac wrth fy modd yn gwneud rhyw gylchdaith foreol cyn dychwelyd i slafio o flaen sgrîn-gweithio-adra. O'r orsaf drenau, mi fydda i'n croesi'r bont droed i lwybrau niferus Fferm y Fforest am hafan a hwyaid Camlas Morgannwg (1790), pasio Pwmp Dŵr Melingriffith (1807) i Barc Hailey a chamu dros draphont Llandaf hen lein y Taff Vale yn ôl i'r Goetre Fawr.

Diolch i'r pandemig, o bopeth, am y cyfle i 'nabod Gogledd Caerdydd.

*Dylan Wyn Williams*

